Law yn llaw
at Dde Cymru
diogel, cyfiawn
a chynhwysol

# Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder De Cymru 2025-29

Comisiynydd
yr Heddlu a
Throseddu
De Cymru

South Wales
Police
and Crime
Commissioner

Law yn llaw at Dde Cymru diogel, cyfiawn a chynhwysol

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| Prif Gwnstabl | 9 |
| 1.0 Eich Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru | 10 |
| 2.0 Ein Cynllun | 13 |
| 3.0 Fy Ngweledigaeth, Fy Ngwerthoedd A'm Contract â Chi | 14 |
| 4.0 Datblygu Ein Blaenoriaethau | 17 |
| 5.0 Ein Cynllun ar Dudalen | 19 |
| 6.0 Cipolwg ar Dde Cymru | 20 |
| 7.0 Galluogwyr | 24 |
| 8.0 Themâu Trawsbynciol | 38 |
| 9.0 Blaenoriaeth 1 | 46 |
| Blaenoriaeth 2 | 51 |
| Blaenoriaeth 3 | 56 |
| Blaenoriaeth 4 | 61 |
| Blaenoriaeth 5 | 66 |
| 10.0 Sut y Byddwn yn Goruchwylio'r Broses o Gyflawni'r Cynllun ac yn Dwyn yr Heddlu i Gyfrif | 70 |
| 11.0 Cyllid ac Adnoddau | 73 |
| 12.0 Dangos Gwerth am Arian ac Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi | 75 |
| 13.0 Mesur Llwyddiant ac Effaith | 77 |
| 14.0 Sut i Gymryd Rhan | 79 |
| 15.0 Dogfennau Cysylltiedig | 80 |

# Rhagair

Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer De Cymru, rwy'n ymrwymedig i gydweithio â'r Prif Gwnstabl yn ein priod rolau, er mwyn sicrhau De Cymru diogel, cyfiawn a chynhwysol.



Mae'n fraint wirioneddol cael gwasanaethu cymunedau ledled De Cymru fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a helpu i droi eich dyheadau ar gyfer plismona a lleihau troseddu yn weithredoedd ac roedd derbyn y rôl etholedig ym mis Mai 2024 gyda 45.2% o'r bleidlais gyhoeddus yn destun balchder mawr i mi.

Roedd yn fraint cael fy ethol i wasanaethu'r bobl a'r cymunedau lle y tyfais i fyny.

Mae'r Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder hwn yn nodi'n fanwl sut y byddaf yn cyflawni fy ymrwymiadau i chi'r cyhoedd. Byddaf yn ceisio defnyddio fy rôl i feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona a'r system cyfiawnder troseddol leol drwy sicrhau mwy o dryloywder o ran perfformiad yr Heddlu a phartneriaid, a thrwy graffu ar y diwylliant a safonau yn Heddlu De Cymru.

Un o'm cyfrifoldebau cyntaf fel eich Comisiynydd yw nodi fy ngweledigaeth strategol, fy mlaenoriaethau a'm hamcanion ar gyfer gweithio gyda'r sector plismona a phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â throseddu yn Ne Cymru. Rwyf yn angerddol dros ddwyn ynghyd bartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol er mwyn lleihau niwed a helpu i gysylltu blaenoriaethau lleol er mwyn mynd i'r afael â throseddu ac anhrefn, a dyna pam rwyf wedi penderfynu cynnwys cyfeiriadau at Gyfiawnder yn y Cynllun hwn hefyd.

Mae'r Cynllun (2025-2029) i bob person lleol (gan gynnwys y rhai sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn yr ardal neu'n ymweld â hi), waeth beth fo'ch cefndir neu'ch amgylchiadau personol. Mae'r Cynllun hwn yn canolbwyntio ar sut y byddaf yn gweithio gyda'r sector plismona a phartneriaid er mwyn sicrhau plismona a chyfiawnder effeithiol, gan feithrin cydlyniant cymunedol a sicrhau tryloywder ac atebolrwydd o ran y ffordd rydym yn mynd i'r afael â throseddu. Wrth wneud hynny, rwyf hefyd yn ymrwymedig i sicrhau bod fy llais yn cael ei ddefnyddio i gryfhau eich llais chithau wrth lywio atebion o ran yr heddlu, troseddu a chyfiawnder ledled De Cymru.

Rwyf wedi gwrando'n astud ar eich safbwyntiau a'ch profiadau fel unigolion, gweithwyr proffesiynol a phartneriaid ac wedi profi fy nhybiaethau yn drwyadl drwy lens gwyddor ymddygiadol er mwyn cymhwyso trylwyredd academaidd at y broses hon. Drwy fabwysiadu dull ymgynghori aml-haen, a oedd yn cynnwys arolwg cyhoeddus helaeth ar-lein, rhaglen grantiau bach (er mwyn i sefydliadau cymunedol lleol allu arwain sgyrsiau â'u haelodau) ac ymgynghoriadau â gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid busnes, llwyddais i gasglu gwybodaeth o amrywiaeth o gymunedau gan gynnwys rhai sydd, yn draddodiadol, wedi'i chael hi'n anodd ymgysylltu. Rwyf wrth fy modd bod mwy na 5,000 o bobl wedi rhannu eu hadborth â mi, gan adlewyrchu'r ymarfer ymgysylltu mwyaf a gynhaliwyd gan y swyddfa hyd yma, gyda chynrychiolaeth gref gan bobl o gymunedau ethnig leiafrifol yn unol â data'r Cyfrifiad Cenedlaethol ac, mewn rhai ardaloedd, yn fwy na hynny.

Er mai cynllun pedair blynedd yw hwn, bydd yn ddynamig er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau mewn perthynas â phlismona, troseddu a phrofiadau cysylltiedig cymunedau.  Oherwydd y cymhlethdodau cynyddol sy'n gysylltiedig â throseddu a bygythiadau sy'n datblygu – sy'n amrywio o droseddau traddodiadol i heriau newydd fel seiberdroseddu a bygythiadau twyllwybodaeth a chamwybodaeth ar-lein, mae'n hanfodol ein bod yn mabwysiadu dull gweithredu sy'n gwneud defnydd effeithiol o wyddoniaeth, arloesedd a thechnolegau newydd. Rhaid i ni fynd ati'n rhagweithiol i fynd i'r afael â bygythiadau newydd gan ddefnyddio atebion newydd ac ystyried dulliau arloesol o fynd i'r afael â throseddau presennol megis terfysgaeth, camfanteisio, troseddau casineb a thrais difrifol (gan gynnwys troseddau'n ymwneud â chyllyll a thrais yn erbyn menywod a merched). Mae'n bwysicach nag erioed fod y Prif Gwnstabl a minnau yn cydweithio â phartneriaid i greu cymunedau cadarn a darparu gwasanaeth heddlu ymatebol, teg ac effeithlon.

Gyda Llywodraeth Lafur newydd wedi'i hethol yn San Steffan a Llywodraeth Lafur yn y Senedd, mae hyn yn rhoi cyfle i Lafur Cymru ddileu rhwystrau i alinio polisi a chydweithio trawslywodraethol wrth geisio mynd i'r afael â blaenoriaethau'r maniffesto megis mynd i'r afael â thrais gan bobl ifanc, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phob math o Drais yn erbyn Menywod a Merched. Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, rwy'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewn Llywodraeth Leol ac yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac rwyf eisoes wedi meithrin cydberthynas waith gryf, gadarn a chydweithredol â nhw, er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig o gyflawni'r blaenoriaethau a rennir gennym. Bydd y Cynllun hwn yn canolbwyntio ar weledydd yr heddlu a'i allu i ymateb ac ymddiriedaeth a hyder cymunedol.  Yn unol â Chenhadaeth Strydoedd Mwy Diogel Llywodraeth y DU[1], bydd y Cynllun yn cefnogi'r ymrwymiad i haneru nifer yr achosion o Drais yn erbyn Menywod a Merched a throseddau'n ymwneud â chyllyll dros y 10 mlynedd nesaf.


> Roedd yn fraint cael fy ethol i wasanaethu'r bobl a'r cymunedau lle y tyfais i fyny.

Mae manylion y Cynllun hwn yn gynhwysfawr. Fel y gwelwch, rwyf wedi amlinellu fy mlaenoriaethau, yn unol â'r hyn rydych chi, y cyhoedd, wedi gofyn i mi ganolbwyntio arno, gan roi enghreifftiau clir o'r problemau rydym yn eu hwynebu, sut rydym yn gweithio i'w datrys, a'r partneriaid y byddwn yn gweithio gyda nhw. Rwy'n ymrwymedig i barhau i gynnal deialog agored a gonest gyda'r cyhoedd am fy rôl, fy amcanion a sut rydym yn cydweithio i'w cyflawni.

I ategu'r Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder gynhwysfawr hwn, rwyf wedi llunio Cynllun ar Dudalen sy'n canolbwyntio ar fy mlaenoriaethau a sut y byddwn yn eu cyflawni, gan sicrhau y gall y cyhoedd nodi fy addewidion yn gyflym a barnu'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn eu herbyn. Ochr yn ochr â'r Cynllun hwn, rwyf hefyd wedi datblygu fframwaith perfformiad cadarn er mwyn sicrhau tryloywder ynglŷn â'r ffordd y bydd fy Swyddfa yn mynd ati i asesu ein cynnydd a'n perfformiad cyfunol o ran cyflawni'r Cynllun hwn.

Pan wnaethoch fy ethol fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, ymrwymais i wasanaethu holl gymunedau De Cymru, p'un a wnaethoch bleidleisio drosof ai peidio. Gyda'r cynllun hwn, rwy'n ailddatgan yr ymrwymiad hwnnw. Byddaf yn gweithio bob dydd i ennill eich ymddiriedaeth, gwrando a dysgu, er mwyn inni allu adeiladu De Cymru diogel, cyfiawn a chynhwysol i bawb gyda'n gilydd.

Hoffwn gydnabod pawb sydd wedi cymryd rhan yn yr hyn sydd wedi bod yn broses ymgynghori helaeth a diddorol a diolch yn ddiffuant iddynt ac edrychaf ymlaen at gynrychioli'r cymunedau rwy'n eu gwasanaethu drwy gyflawni'r Cynllun hwn.



**Emma Wools**

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru


DP
HEDDLU
POLICE

# Prif Gwnstabl

Rwyf wrth fy modd yn gweithio ochr yn ochr ag Emma Wools fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, ar ôl gweithio'n agos gyda hi yn ei rôl flaenorol fel Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Gyda'n gilydd, rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn astudio yn Ne Cymru, yn ogystal ag ymwelwyr, yn cael gwasanaeth heddlu rhagorol – un sy'n hygyrch ac yn ddibynadwy ac y gall ein cymunedau ymddiried ynddo. Mae gennym ddyletswydd i gynnal y safonau ymddygiad uchaf er mwyn ennyn yr ymddiriedaeth hon a bydd hynny'n parhau i fod yn flaenoriaeth i'r heddlu ac i'r Comisiynydd.

Mae  sicrhau bod plismona yn y gymdogaeth wrth wraidd ein gwasanaeth yn parhau i fod yn ymrwymiad yn y Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder a Chynllun Cyflawni Heddlu De Cymru. Yn ogystal â defnyddio arloesedd a thechnoleg i sicrhau ein bod yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn cadw i fyny â'r amgylchedd sy'n newid.



Fodd bynnag, diogelu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yw ein prif ffocws a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hynny. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i ddioddefwyr, ym mhob un o'n cymunedau.



**Jeremy Vaughan**

Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru

# 1.0
# Eich Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

## Amdano eich Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Emma Wools yw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu etholedig De Cymru.

Emma yw'r fenyw gyntaf o dras gymysg i gael ei hethol yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru.

Mae Emma yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad a diwylliant yr heddlu er mwyn helpu i atal troseddu ledled ein rhanbarth. Mae Emma, a anwyd ac a fagwyd yng Nghaerdydd, yn frwd dros weithio i gyflawni dros ein cymunedau ledled De Cymru. Dechreuodd Emma fel gwirfoddolwr yn y system cyfiawnder troseddol ac ar ôl graddio o'r brifysgol, ymunodd â'r gwasanaeth prawf. Dros y 24 blynedd diwethaf, mae wedi meithrin profiad a gwybodaeth helaeth, gan weithio mewn rolau llawn pwysau mewn carchardai a'r gwasanaeth prawf ac ym meysydd plismona a diogelwch cymunedol, gan gynnwys gweithio yn y rheng flaen, gyda rhai o'r aelodau mwyaf agored i niwed a chymhleth o'n cymunedau. Magodd Emma enw da iddi hi ei hun yn ei gwaith gyda dioddefwyr a phobl sydd wedi troseddu, gan arwain, mentora a deall y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu a gweithio y tu ôl i'r llenni i gyflawni newid gwirioneddol a chadarnhaol er gwell.

Daeth Emma yn Brif Swyddog Cynorthwyol fel Pennaeth Integreiddio Gwasanaethau Troseddwyr ar gyfer y Gwasanaeth Prawf, gan ddefnyddio ei sgiliau a'i phrofiad i ddeall y problemau a'r heriau a'r newidiadau roedd eu hangen i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion a chymunedau. Bellach, fel eich cynrychiolydd etholedig, **mae Emma yn gweithio i greu De Cymru mwy diogel,**

**tecach a mwy cynhwysol i bawb sy'n gweithio, yn byw ac yn astudio yn yr ardal ac yn ymweld â hi.**

Yn ystod y cyfnod hwn, bu Emma yn gyfrifol am ddatblygu dulliau traws-sector, partneriaeth a chydweithredol arloesol o leihau troseddu a chadw pobl yn ddiogel, gyda ffocws allweddol ar hyrwyddo dull iechyd y cyhoedd er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a dulliau cydweithredol o fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â rhywedd ac anghydraddoldeb hiliol. Mae ei harweinyddiaeth yn y cyd-destun hwn wedi'i chydnabod o fewn nifer o wobrau cenedlaethol, gan adlewyrchu ei hymrwymiad i gydweithio mewn partneriaeth.

Yn 2016, fe'i penodwyd yn Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru. Arweiniodd fentrau lleihau trais a gwaith ymyrryd yn gynnar er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau dinistriol profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. At hynny, arweiniodd Emma sawl rhaglen newid trawsffurfiol proffil uchel llwyddiannus, gan gynnwys Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel y Glasbrint[2], Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Strategaeth 2022 i 2026[3], Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru[4] a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid[5], a Rhaglen Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru[6], ac roedd yn gyfrifol am ddatblygu'r rhaglenni hynny.

Yn 2024, etholwyd Emma yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru dros Lafur Cymru a'r Blaid Gydweithredol yn dilyn ymgyrch etholiadol lwyddiannus a dynnodd sylw at yr angen i wella plismona cymunedol a chanolbwyntio mwy ar atal troseddu ac arloesedd er mwyn sicrhau bod plismona yn addas ar gyfer y dyfodol. Ers dechrau yn y swydd, mae wedi datblygu 'Contract â De Cymru,' sef cynllun manwl i wella ymddiriedaeth a hyder y gymuned mewn plismona a'r system cyfiawnder troseddol. Ceir rhagor o wybodaeth am gontract Emma â phobl De Cymru yn adran 3.

# Rôl a Dyletswyddau Statudol CHTh

Disgrifir fy nghyfrifoldebau fel eich Comisiynydd yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011[7].




Yn hollbwysig, mae'n rhaid i mi gyflawni'r swyddogaethau hyn heb gyfyngu ar annibyniaeth weithredol yr heddlu na'r Prif Gwnstabl sy'n ei arwain.

# 2.0
# Ein Cynllun

Mae ein Cynllun, a ddatblygwyd gan ddefnyddio eich adborth gwerthfawr, yn nodi ein blaenoriaethau a'n gweledigaeth a rennir ar gyfer plismona, troseddu a chyfiawnder yn Ne Cymru rhwng 2025 a 2029. Bydd yn canolbwyntio ar sicrhau plismona cymunedol mwy penodol, meithrin cydlyniant cymunedol a sicrhau tryloywder ac atebolrwydd o ran y ffordd rydym yn mynd i'r afael â throseddu, drwy'r canlynol:

- **Plismona gweladwy, cysylltiedig ac ymatebol sy'n canolbwyntio ar y gymuned,** gyda chyfleoedd ymgysylltu a chyfranogi ystyrlon i ysgogi gweithredu ar y cyd sy'n cefnogi cymunedau diogel, cynhwysol a chadarn;
- **Dull rhagweithiol o fynd i'r afael ag** achosion sylfaenol **troseddu a thrais,** drwy ymgysylltu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc, gweithgareddau dargyfeiriol a chefnogol i'r rhai sy'n wynebu risg o droseddu a chael eu niweidio a buddsoddiad cydweithredol i gynyddu'r effaith a sicrhau mwy o ganlyniadau cadarnhaol;
- **Diogelu pobl a chymunedau sy'n agored i niwed,** mewn lleoliadau domestig, cyhoeddus ac ar-lein;
- **Cryfhau cefnogaeth i ddioddefwyr** drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau hygyrch a monitro perfformiad asiantaethau cyfiawnder troseddol mewn perthynas â hawliau dioddefwyr; cefnogi dioddefwyr a gweithio gyda phartneriaid allweddol tuag at system cyfiawnder troseddol teg.
- **Plismona sy'n addas ar gyfer y dyfodol,** drwy adeiladu gweithlu sy'n cynrychioli cymunedau De Cymru; a manteisio ar dechnolegau a datrysiadau digidol er mwyn arloesi ac ymateb i heriau plismona sy'n dod i'r amlwg.

Rwy'n deall mai un o'r heriau mwyaf fydd y buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni ein huchelgeisiau. Caiff y gwaith o gyflawni'r uchelgeisiau hyn drwy'r Cynllun hwn ei arwain gan dystiolaeth, angen a'r gyllideb sydd ar gael neu'r gallu i sicrhau cyllid ychwanegol. **Caiff camau gweithredu a nodir yn y Cynllun hwn eu hadolygu bob blwyddyn a, lle y bo angen, eu diweddaru yn unol â thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg.**

# 3.0
# Fy Ngweledigaeth, Fy Ngwerthoedd A’m Contract â Chi

Fy ngweledigaeth ar gyfer De Cymru yw lle diogel, cyfiawn a chynhwysol i fyw, gweithio, astudio neu ymweld ag ef i bawb – waeth beth fo’ch cefndir neu’ch amgylchiadau personol.

Mae’r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar ysgogi newid cadarnhaol drwy rymuso holl bobl a chymunedau lleol De Cymru a gwrando arnynt.

Gwaddol y Cynllun hwn fydd Gwasanaeth Heddlu yn Ne Cymru y gall pob un o’n cymunedau ymddiried ynddo ac sy’n gweithredu fel rhan o ymateb amlasiantaethol system gyfan er mwyn diwallu anghenion y bobl sy’n ffurfio ein cymunedau yn effeithiol.

# Fy Ngwerthoedd

Byddaf yn mabwysiadu dull uchelgeisiol a rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar atebion i fynd i'r afael â'r materion cymhleth y mae plismona yn eu hwynebu. Mae gwerthoedd fy swyddfa yn adlewyrchu'r egwyddorion rwy'n sefyll drostynt fel Comisiynydd a byddant yn sail i'r ffordd rydym yn datblygu'r blaenoriaethau o dan y Cynllun hwn. Y gwerthoedd hyn yw:

### Ymrwymiad

Defnyddio ein brwdfrydedd a'n hegni i gyflawni ag uchelgais.

### Creadigrwydd

Defnyddio ein chwilfrydedd, ein gallu i addasu a'n harloesedd i ddatblygu ein ffyrdd o weithio.

### Effeithlonrwydd

Cyflawni ein nodau drwy wneud y gorau o'n staff a'n hadnoddau.

### Cydweithio

Canolbwyntio ar gryfder gweithio gydag eraill.

### Uniondeb

Gwneud a dweud y peth cywir.

### Tryloywder

Bod yn barod i rannu gwybodaeth briodol mewn ffordd ystyrlon.

### Parch

Parchu teimladau, dymuniadau, hawliau a phrofiadau bywyd pobl eraill.

# Fy Nghontract â Chi

## Wrth gyflawni'r weledigaeth hon, byddaf yn gwneud y canlynol:

- Gweithredu yn unol â'n gwerthoedd;
- Dwyn Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru i gyfrif gyda chi, gan sicrhau bod cyfranogiad dinasyddion ac ymgysylltu â'r gymuned wrth wraidd y dull hwn o weithredu;
- Bod yn berson hawdd mynd ato, gwrando a gweithredu er mwyn helpu i gynyddu hyder y cyhoedd;
- Parhau i ddatblygu (a dangos) prosiectau a mentrau sy'n cynnig gwerth am arian;
- Darparu gwasanaethau ymatebol er mwyn cefnogi dioddefwyr a chymunedau;
- Gweithio gyda phartneriaid fel rhan o ddull system gyfan o greu cymunedau diogel, cyfiawn a chynhwysol;
- Cael fy arwain gan dystiolaeth o ansawdd uchel, gan fabwysiadu dull ystwyth o ymateb i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a mathau newydd o droseddau.

# 4.0 Datblygu Ein Blaenoriaethau

Rwyf wedi creu y contract hwn â chi, pobl De Cymru, er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau sy'n bwysig i chi. Rwy'n gwybod ac yn deall nad oes gan unrhyw berson yr atebion i gyd a dyna pam rwyf wedi ymgynghori'n eang â mwy na 5,000 o aelodau o'r cyhoedd a grwpiau rhanddeiliaid proffesiynol, rwyf wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â gwahanol fusnesau lleol a grwpiau cymunedol ledled De Cymru ac rwyf wedi ystyried amrywiaeth o ddata, tystiolaeth, polisïau a chanfyddiadau arolygiadau annibynnol er mwyn helpu i ddatblygu a mireinio'r blaenoriaethau yn y Cynllun hwn.

Drwy fabwysiadu amrywiaeth o ddulliau o gael adborth, clywais gan bobl o wahanol genedlaethau, grwpiau ethnig a diwylliannau a phobl â phrofiadau bywyd amrywiol. Cefais gyfraniadau gan bobl ag anableddau, cyflyrau iechyd meddwl, y rhai sydd â phrofiad o'r system ofal, diweithdra, caledi ac unigedd a phrofiadau bywyd eraill.

Yn draddodiadol, yn aml nid yw lleisiau pobl o gefndiroedd Du ac Asiaidd a chefndiroedd ethnig leiafrifol eraill wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn dulliau ymgynghori â'r cyhoedd. Felly, roeddwn i'n arbennig o falch o weld bod cynrychiolaeth gref ac amrywiol o gyfranogwyr, ar lefelau uwch na data'r cyfrifiad cenedlaethol (2021) yn y dull ymgynghori hwn, a ddarparodd wybodaeth ddiwylliannol ar draws amrywiaeth eang o safbwyntiau.

Hoffwn ddiolch i'r bobl a'r sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr a helpodd i lywio blaenoriaethau a datblygiadau ein Cynllun  Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder:

DROS

# 5,000

O BOBL WEDI RHANNU EU ADBORTH FEL RHAN O'R YMGYNGHORIAD

## 230+

**o bobl wedi rhannu eu hadborth mewn stondinau cymunedol.**

## 3,554

**o bobl wedi cwblhau'r arolwg cyhoeddus.**

## 1,100

**o bobl wedi cymryd rhan mewn sgyrsiau a hwyluswyd gan grwpiau llawr gwlad ar ein rhan.**

## 130+

**o bobl wedi rhannu eu hadborth â'r Comisiynydd fel rhan o'r ymweliadau 'Yn eich Cymuned'.**

## 40+

**o sefydliadau/grwpiau wedi cysylltu â'r swyddfa i amlygu meysydd penodol y credent y dylid eu blaenoriaethu wrth ddatblygu'r Cynllun.**

## 20+

**Sesiynau rhanddeiliaid proffesiynol a hwyluswyd gan dîm y Comisiynydd gyda asiantaethau mewnol ac allanol.**

# Ein Cynllun ar Dudalen

Mae ein Cynllun, a ddatblygwyd gan ddefnyddio eich adborth gwerthfawr, yn nodi ein blaenoriaethau a'n gweledigaeth a rennir ar gyfer plismona, troseddu a chyfiawnder yn Ne Cymru.

Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar sicrhau plismona effeithiol, meithrin cydlyniant cymunedol a sicrhau tryloywder ac atebolrwydd o ran y ffordd rydym yn mynd i'r afael â throseddu.

## Law yn Llaw at Dde Cymru Diogel, Cyfiawn a Chynhwyso

**BLAENORIAETH 1** – Plismona Gweladwy a Chysylltiedig sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned

**BLAENORIAETH 2** – Atal Troseddu a Lleihau Trais

**BLAENORIAETH 3** – Diogelu Pobl a Chymunedau sy'n Agored i Niwed, gan gynnwys Ar-lein

**BLAENORIAETH 4** – Sicrhau Cyfiawnder i Ddioddefwyr a Lleihau Aildroseddu

**BLAENORIAETH 5** – Plismona Sy'n Addas ar gyfer y Dyfodol

### VAWG – Trais yn Erbyn Menywod a Merched

Mae lefel a chymhlethdod troseddau a niweidiau sy'n cael effaith anghymesur ar fenywod a merched yn parhau i gynyddu yn genedlaethol. Caiff Cynllun Trais yn erbyn Menywod a Merched ei ddatblygu ar y cyd â phartneriaid a bydd yn rhoi cyfeiriad y cytunwyd arno i gefnogi ymateb amlasiantaethol.

### CYP – Plant a Phobl Ifanc

Mae natur heriau, bregusrwydd a niweidiau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu, gartref, yn yr ysgol, ar-lein ac yn eu cymdogaethau yn newid drwy'r amser ac os ydym am ymateb yn effeithiol mae angen i ni ddeall y materion a'r pryderon sy'n bwysig iddynt.

### EDI – Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Tegwch a chydraddoldeb yw egwyddorion sylfaenol plismona a chyfiawnder effeithiol a byddant wrth wraidd popeth a wnawn. Drwy ein gwaith byddwn yn dathlu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth, gan sicrhau ein bod yn deall anghenion pawb ac yn ymateb iddynt.

### PHA – Dull Iechyd y Cyhoedd

Mae'n canolbwyntio ar weithgarwch ataliol er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol yn hytrach na dim ond ymateb i droseddu a niwed pan fydd yn digwydd. Drwy rannu data rhwng partneriaethau, rydym yn cydnabod cysylltiadau rhwng troseddu, problemau iechyd, allgáu cymdeithasol ac anghydraddoldeb.

Mae'r themâu allweddol hyn yn dylanwadu ar bob un o'r pum blaenoriaeth yn ein Cynllun

## EIN GALLUOGWYR

- Comisiynu Gwasanaethau
- Ymgysylltedd a Chyfranogiad Cymunedol
- Arweinyddiaeth Effeithiol a Gweladwy
- Partneriaethau Cyflawni a Llywodraethu Cadarn
- Data a Thystiolaeth
- Technoleg

# 6.0 Cipolwg ar Dde Cymru

Mae De Cymru yn rhanbarth llawn cyferbyniadau, gyda dinasoedd a threfi prysur, treftadaeth fwyngloddio gyfoethog a gorffennol diwydiannol ac ardaloedd o harddwch naturiol ysblennydd, gan gynnwys 150 o filltiroedd o arfordir Cymru.

Heddlu De Cymru yw'r heddlu mwyaf yng Nghymru ac mae'n gwasanaethu dyffrynnoedd, trefi arfordirol, gwledig a threfol a dwy o ddinasoedd mwyaf y wlad, sef Caerdydd ac Abertawe. Mae Caerdydd, sef prifddinas Cymru, yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid gyda mwy na 18 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn ac mae hefyd yn gartref i ryw 100,000 o fyfyrwyr.

Mae Heddlu De Cymru yn heddlu strategol, gyda'r Prif Gwnstabl ac Uwch-swyddogion yn cyflawni rolau arwain allweddol o ran mynd i'r afael â Blaenoriaethau Plismona Cenedlaethol (gan gynnwys gweithio gyda heddluoedd yng Nghymru), ac mae'n cynnal Uned Gwrthderfysgaeth Cymru a'r Uned Troseddau Cyfundrefnol ranbarthol a'r Uned Technoleg a Gwyddoniaeth sydd newydd ei sefydlu.

Ochr yn ochr â phlismona o ddydd i ddydd, mae Heddlu De Cymru yn wynebu nifer o ofynion plismona ychwanegol, sy'n ymwneud â phresenoldeb Llywodraeth Cymru yn y brifddinas a chysylltiadau brenhinol cryf Cymru (mae'r Heddlu yn derbyn ymweliadau gan aelodau o deuluoedd brenhinol a phobl bwysig o wledydd tramor). Mae'r Heddlu hefyd yn adnabyddus ledled y byd am gynnal digwyddiadau chwaraeon a cherddoriaeth mawr yn llwyddiannus. Fodd bynnag, er gwaethaf y gofynion ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cyfrifoldebau hyn, mae'r Heddlu yn gweithredu heb fanteision ariannol statws prifddinas.



# Trosolwg o'r Galw ar yr Heddlu

**246,115**
O ALWADAU 999

**379,429**
O ALWADAU 101

**621**
O DDIGWYDDIADAU MAWR

**276**
O BROTESTIADAU

**10 %**

10% O ARDAL DDAEARYDDOL CYMRU

YN CWMPASU:
**812**
O FILLTIROEDD SGWÂR

**42 %**

42% O BOBLOGAETH CYMRU

**9.3 %**

NODODD 9.3% EU BOD YN PERTHYN I GRŴP ETHNIG LEIAFRIFOL

## POBLOGAETH SY'N HENEIDDIO

Nododd y cyfrifiad diwethaf nad oedd nifer y bobl ifanc yn Ne Cymru (hyd at 16 oed) ond ychydig yn fwy na nifer y bobl dros 65 oed[8].

**24,815**
O ARESTIADAU

**142,544**
O DDIGWYDDIADAU TROSEDDOL

**267,998**
O DDIGWYDDAU TROSEDDOL A HEB FOD YN DROSEDDOL



YR HEDDLU MWYAF YNG NGHYMRU

PRIFDDINAS CYMRU


**109,841**
O DROSEDDAU

**42%**
O'R HOLL DROSEDDAU YNG NGHYMRU

YN DARPARU GWASANAETH I
**1.3**
MILIWN O BOBL

**100,000**
O FYFYRWYR AR DRAWS PUM PRIFYSGOL

**60 o'r 100**
O GYMUNEDAU MWYAF DIFREINTIEDIG YNG NGHYMRU



# 7.0 Galluogwyr

## Comisiynu Gwasanaethau

Fel Comisiynydd, mae gennyf fandad i ddarparu gwasanaethau er mwyn helpu dioddefwyr neu dystion a helpu i leihau troseddu ac anhrefn. Byddwn yn comisiynu nifer o ddarparwyr gwahanol, gan gynnwys Sefydliadau Anllywodraethol a sefydliadau a phrosiectau cymunedol lleol, i helpu i ddarparu'r gwasanaethau pwysig hyn, a chysylltu'r rhai y mae troseddau yn effeithio arnynt a'r rhai sy'n troseddu â'r ymyriadau sydd eu hangen arnynt, ar adeg pan fo'i angen arnynt.

Lle y bo'n bosibl, byddaf yn mabwysiadu dull comisiynu ar y cyd â phartneriaid er mwyn helpu i wella canlyniadau ac annog dull a rennir o ymdrin â risg, cyfrifoldeb ac atebolrwydd mewn perthynas â meysydd sy'n flaenoriaeth i bob parti. Byddaf yn datblygu dogfen bwriadau comisiynu a fydd yn nodi i ble rydym yn bwriadu cyfeirio buddsoddiad, yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- **Helpu i sicrhau bod blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder yn cael eu cyflawni'n effeithiol**
- **Adlewyrchu anghenion lleol, bod yn hygyrch ac yn gynhwysol**
- **Sicrhau gwerth am arian**
- **Yn seiliedig ar dystiolaeth**
- **Dull Iechyd y Cyhoedd**
- **Wedi'i lywio gan brofiadau bywyd**
- **Yn gweithredu yn unol â safonau ansawdd**

Byddaf yn cyhoeddi gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir a'r effaith y maent yn ei chael, fel rhan o drefniadau fy fframwaith perfformiad a'm hadroddiad blynyddol.

## Data a Thystiolaeth

Bydd data a thystiolaeth yn parhau i fod yn ganolog i'm dull o gyflawni'r blaenoriaethau yn y Cynllun hwn. Mewn cydweithrediad â'r Prif Gwnstabl a phartneriaid, rhannu setiau data a defnyddio dadansoddeg i ddarparu tystiolaeth er mwyn llywio'r Fframwaith Perfformiad a galluogi'r canlynol:

- Gwybodaeth a thystiolaeth i'm helpu i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif.
- Dealltwriaeth well o dueddiadau troseddau sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar ein cymunedau ac ymateb gwell iddynt.
- Dealltwriaeth well o niweidiau ac anghenion cudd sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig.
- Monitro cynnydd SCHTh o ran rhoi'r Cynllun ar waith, ynghyd ag effeithiolrwydd y gwasanaethau rwy'n eu comisiynu.
- Gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth ynghylch datblygu polisi ac arferion plismona a chyfiawnder troseddol, yn seiliedig ar ffeithiau.
- Mwy o dryloywder mewn dangosyddion perfformiad allweddol.

## Technoleg

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gwyddoniaeth a thechnoleg wedi dod yn ganolog i allu'r sector plismona i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, gyda Chynllun Gwyddoniaeth a Thechnoleg Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (2024)[9] yn cydnabod bod gwyddoniaeth, technoleg ac arloesedd yn rhan annatod o'r gwaith o ddarparu gwasanaeth heddlu o'r radd flaenaf.


Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y byddwn ni, mewn cydweithrediad â'r Prif Gwnstabl, yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y gall gwyddoniaeth, technoleg ac arloesedd eu cynnig i faes plismona er mwyn ein galluogi i gadw i fyny â throseddoldeb sy'n newid yn gyflym, rheoli'r galw, cefnogi effeithlonrwydd a chynhyrchiant ac, yn y pen draw, wella canlyniadau i'r cyhoedd, gan gynnal y safonau moesegol uchaf ar yr un pryd.

> Mae'r holl heddluoedd yn mabwysiadu amrywiaeth o dechnolegau gan eu bod yn trawsnewid ein gallu i gasglu tystiolaeth ac i gadw'r cyhoedd yn ddiogel.
>
> CADEIRYDD CYNGOR CENEDLAETHOL PRIF SWYDDOGION YR HEDDLU

# Arweinyddiaeth Effeithiol a Gweladwy

Bydd arweinyddiaeth effeithiol a gweladwy yn ganolog i'm dull o gyflawni'r Cynllun hwn. Bydd fy nhîm a minnau yn mynd ati i ymgysylltu â'r sector plismona, partneriaid a'r cyhoedd er mwyn rhannu'r weledigaeth ar gyfer y Cynllun hwn, deall y materion sy'n effeithio ar bobl a chymunedau lleol, cydnabod heriau, asesu unrhyw risgiau posibl a'n galluogi i fabwysiadu dull o ddatrys problemau ar y cyd. Bydd hyn yn cynnwys:

- **Cyflawni fy nyletswyddau statudol** fel eich Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu;
- **Chwarae rhan weithredol** mewn fforymau plismona a phartneriaeth allweddol yn genedlaethol, ar lefel Cymru, yn rhanbarthol ac yn lleol;
- **Cymryd cyfrifoldeb am arwain** rhaglenni gwaith plismona a chyfiawnder troseddol cydweithredol allweddol;
- **Cynyddu fy ngweladwy** a chyfleoedd i mi ymgysylltu â'n cymunedau ledled De Cymru;
- **Modelu gwerthoedd arweinyddiaeth** gan gynnwys bod yn agored, hygyrchedd, agosatrwydd, tryloywder a chydweithio er mwyn hyrwyddo ymddiriedaeth a pharch.





# Ymgysylltu a Chyfathrebu â'r Gymuned a'i Chynnwys

Gan weithredu fel pont rhwng y cyhoedd a'r heddlu, fel Comisiynydd, mae gennyf gyfrifoldeb i ddeall safbwyntiau a phrofiadau pobl mewn perthynas â phlismona yn Ne Cymru. Mae gweld sut mae pethau'n gweithio ar lawr gwlad a siarad â phobl leol yn fy ngalluogi i adlewyrchu safbwyntiau a phrofiadau cymunedau lleol mewn ffordd gredadwy a sicrhau bod asiantaethau plismona a chyfiawnder troseddol yn cael eu dwyn i gyfrif am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae cynnal cysylltiadau cymunedol a gweithio gyda'n gilydd yn fy ngalluogi i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth, awgrymu atebion a dylanwadu ar bolisïau er budd pennaf ein cymunedau.

Mae'n hanfodol bwysig eich bod chi, y cyhoedd, yn parhau i hysbysu fy ngwaith ac rwy'n ymrwymedig i sicrhau bod ein hymgysylltiad yn parhau i fod yn ystyrlon ac yn gynhwysol. Er mwyn gwneud hyn, caiff cynllun ymgysylltu penodedig ei ddatblygu, a fydd yn canolbwyntio ar ymestyn ein cyrhaeddiad i genedlaethau, grwpiau ethnig a diwylliannau gwahanol a phobl â phrofiadau bywyd amrywiol, er mwyn i amrywiaeth eang o safbwyntiau allu cael eu clywed.

## Ein nod yw:

- **Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth leol**
  Mae cyfarfod â phobl leol a gweld sut mae pethau'n gweithio ar lawr gwlad, yn ein helpu i wneud penderfyniadau, awgrymu atebion a dylanwadu ar bolisïau;

- **Monitro barn y cyhoedd**
  Deall unrhyw newidiadau neu amrywiadau lleol yn y pethau sy'n bwysig i bobl mewn perthynas â materion troseddu a phlismona

- **Cynyddu dealltwriaeth**
  Gwella dealltwriaeth pobl o rôl ac effaith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r ffordd y gall y rôl hon roi mwy o lais i chi ym maes plismona.

## Er mwyn cyflawni hyn, byddaf yn gwneud y canlynol:

**Sicrhau fy mod yn fwy gweladwy (a bod fy swyddfa yn fwy gweladwy) mewn cymunedau drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau megis ‘diwrnodau Yn eich cymuned’, ‘Sgyrsiau Cymunedol â’r Comisiynydd’, a thrwy fod yn bresennol mewn digwyddiadau cymunedol;**

**Cryfhau cynrychiolaeth gymunedol o fewn ein strwythur llywodraethu;**

**Dysgu gan bobl ifanc drwy’r model Lleisiau Ifanc;**

**Sefydlu paneli cymunedol er mwyn canfasio aelodau o’r cyhoedd am gwestiynau yr hoffent i mi eu gofyn yn uniongyrchol i’r Prif Gwnstabl;**

**Gwella fy null o gyfathrebu er mwyn sicrhau eich bod yn cael gwybod am ddatblygiadau a chyfleoedd allweddol.**

Byddaf yn cyhoeddi’r adborth ar ganlyniadau fy sgyrsiau â chi.



# Partneriaethau Cyflawni – Nid Dim Ond Ni Sydd

Mae Heddlu De Cymru yn gweithredu mewn tirwedd **gyflawni gymhleth, gan rychwantu saith awdurdod lleol, tri bwrdd iechyd a dau wasanaeth tân ac achub.** Mae hyn yn gofyn am ymrwymiad asiantaethau i gydweithio'n agos er mwyn diwallu anghenion cymunedau. Mae'r sector plismona, y system cyfiawnder a chymdeithas yn wynebu nifer o heriau ehangach hefyd, sy'n gofyn am ddull traws-sector, system gyfan er mwyn bod yn effeithiol. Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys nifer o amcanion a rennir y bwriedir iddynt ymateb i'r heriau hyn na allant gael eu cyflawni gan yr Heddlu a'r Comisiynydd ar eu pen eu hunain ac mae'n dibynnu ar gael trefniadau llywodraethu a chyflawni partneriaeth effeithiol ar waith yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Dangosir y trefniadau ar y tudalen nesaf.

Mae'r trefniadau partneriaeth isod yn sail i'r ffordd rydym yn cydweithio yn Ne Cymru. Fel Comisiynydd, byddaf hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ehangach ar draws meysydd polisi allweddol (sy'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno gwahanol fframweithiau, cynlluniau gweithredu a glasbrintiau) gyda busnesau, y byd academaidd a chymunedau er mwyn helpu i ddatblygu atebion i fynd i'r afael â phryderon lleol, meithrin ymddiriedaeth a hyder a chadw ein cymunedau'n ddiogel.

RHAGLEN YR HEDDLU, TROSEDDU A CHYFIAWNDER DE CYMRU

| Lleol | Rhanbarthol (De Cymru) | Cenedlaethol (Cymru) | Cenedlaethol (y DU) |
|---|---|---|---|
| Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol De Cymru | Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru | Rhwydwaith Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu |
| Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (VAWDASV, Trais Difrifol) | Bwrdd Diogelu Rhanbarthol | Bwrdd Partneriaeth yr Heddlu Cymru | Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol |
| Ardaloedd Gwella Busnes | | Plismona yng Nghymru | Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, Cymru a Lloegr |
| Partneriaethau Lleihau Troseddau yn erbyn Busnesau | | Cyfarfod Gweithredol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru | |
| Byrddau Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid | | Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol VAWDASV | |
| Byrddau Cynllunio Ardal | | Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel | |
| | | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru | |
| | | Bwrdd Cyffuriau Cymru | |


# Blaenoriaethau a Rennir

Yng Nghymru, mae meysydd polisi a deddfwriaeth sy’n sail i’r ffordd y mae partneriaid yn cydweithio yn torri ar draws y dirwedd ddatganoledig ac annatganoledig. Er nad yw deddfwriaeth ynglŷn â throseddu a chyfiawnder wedi’i datganoli, mae gwasanaethau hanfodol sydd â rôl a chyfrifoldeb i helpu i atal a lleihau troseddu – er enghraifft iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a thai – wedi’u datganoli.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni roi blaenoriaeth i weithio mewn partneriaeth yn genedlaethol, ar lefel Cymru gyfan ac yn rhanbarthol er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon yn ein cymunedau lleol.

# Partneriaid Cyfiawnder Troseddol Lleol a’r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol

Fel Comisiynydd, mae gennyf rôl allweddol i'w chwarae i gynnull asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol er mwyn helpu i ysgogi gwelliannau ym mhob rhan o'r system drwy'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Bydd y Cynllun hwn yn helpu i lywio a chefnogi’r gwaith o bennu blaenoriaethau a goruchwylio perfformiad, er mwyn helpu i sicrhau system cyfiawnder troseddol effeithlon ac effeithiol i bobl De Cymru.





# Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, a sefydlwyd o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn (1998)[10] ac a arweinir ar y cyd gan awdurdodau lleol a'r sector plismona, yn allweddol i ddwyn ynghyd bartneriaid lleol sydd â dyletswyddau statudol ynglŷn â lleihau troseddu ac anhrefn yn eu hardaloedd lleol.

Fel Comisiynydd, mae gennyf gyfrifoldeb i gefnogi'r trefniadau partneriaeth hyn, er mwyn i weithgarwch partneriaeth lleol allu leihau ac atal troseddu.

Rwyf wedi ymgysylltu ag awdurdodau lleol er mwyn ystyried, dadansoddi a nodi synergeddau rhwng ein priod gynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer cydweithio er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posibl.



# Blaenoriaethau Plismona yng Nghymru

Mae'r pedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r pedwar Prif Gwnstabl yng Nghymru (sy'n ffurfio corff a elwir yn Plismona yng Nghymru), yn gobeithio y bydd cydweithio ar graidd o fentrau a rennir yn creu newid parhaol i bobl Cymru. Ar gyfer tymor y swydd hon, mae pedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r pedwar Prif Gwnstabl yng Nghymru yn ymrwymedig i wneud y canlynol:

- **Rhoi llais i gymunedau** drwy annog dinasyddion i chwarae rhan weithredol mewn gweithgarwch craffu a goruchwylio, gan geisio ffyrdd o roi mwy o lais i'r bobl sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn gymdeithasol a chynrychioli barn cymunedau Cymru ar faterion sy'n ymwneud â'r DU gyfan;
- **Cydweithio i greu Cymru Heb Drais**[11] drwy ddatblygu strategaethau atal ac ymyrryd yn gynnar sylfaenol er mwyn rhoi terfyn ar drais ymhlith plant a phobl ifanc, a mynd i'r afael â phob math o Drais yn erbyn Menywod a Merched drwy ddull iechyd y cyhoedd, system gyfan;
- **Gweithio tuag at greu Cymru sy'n Ystyriol o Drawma**[12] drwy gyfrannu at ddull cymdeithasol o ddeall, atal a chefnogi effeithiau trawma a thrallod;
- **Gweithio tuag at greu Cymru wrth-hiliol,** drwy gyflawni Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol[13] i Gymru, gan geisio nodi a dileu'r systemau, y strwythurau a'r prosesau sy'n arwain at ganlyniadau tra gwahanol i unigolion a grwpiau ethnig leiafrifol; a
- **Sicrhau gwerth am arian** i'n cymunedau drwy gydweithio ar drefniadau gwasanaethau a rennir lle y bo'n bosibl. Sicrhau bod gwerth cymdeithasol yn cael ei hyrwyddo a'i ystyried gyda phob trefniant.

Byddaf yn chwarae rhan weithredol mewn amrywiaeth o gydweithrediadau, gan gynnwys Bwrdd Goruchwylio Cydweithrediad yr Heddlu, sydd newydd ei ffurfio, er mwyn helpu i graffu ar drefniadau cydweithio presennol ac ysgogi gweithgarwch mewn perthynas â'r amcanion a rennir uchod.

# Gofyniad Plismona Strategol

Mae'r Gofyniad Plismona Strategol yn galluogi'r Ysgrifennydd Cartref i nodi'r cyfeiriad yn erbyn y bygythiadau cenedlaethol presennol a'r galluoedd plismona cenedlaethol sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r bygythiadau hynny[14]. Mae'n helpu'r sector plismona, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid i gynllunio, paratoi ac ymateb i'r bygythiadau hyn drwy gysylltu'r ymateb lleol yn glir â'r ymateb cenedlaethol, gan nodi'r galluoedd a'r partneriaethau sydd eu hangen ar y sector plismona i sicrhau y gall cyflawni ei gyfrifoldebau cenedlaethol. Felly, gall fy helpu i, yn fy rôl fel Comisiynydd, i wneud y canlynol:

- Cynllunio'n effeithiol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl, ar gyfer heriau plismona sy'n ymestyn y tu hwnt i ffiniau eu heddlu ac ymateb i fygythiadau cenedlaethol, rhanbarthol a thrawsffiniol sy'n gysylltiedig â throseddu a diogelwch y cyhoedd;
- y Prif Gwnstabl i gyfrif am sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd o fewn y Gofyniad Plismona Strategol, gan gefnogi'r ymdrech genedlaethol i ddiogelu'r cyhoedd.

Comisiynydd, mae gennyf ddyletswydd i ystyried y Gofynion Plismona Strategol wrth bennu fy amcanion. Mae'r Gofyniad Plismona Strategol yn cynnwys saith bygythiad cenedlaethol. Fe'u cyflwynir yn y ffeithlun isod er mwyn dangos sut maent wedi cael eu hystyried a sut maent yn ymwneud â'r blaenoriaethau yn y Cynllun hwn. Er bod y bygythiadau hyn yn rhai cenedlaethol, gall y niwed a achosir ganddynt gael ei deimlo'n lleol.

| Blaenoriaeth Plismona Strategol | Blaenoriaeth Gysylltiedig yn y Cynllun hwn |
|---|---|
| Terfysgaeth | Blaenoriaeth 1 2 3 5 |
| Troseddu Difrifol a Chyfundrefnol | Blaenoriaeth 1 2 3 4 |
| Seiberddigwyddi-ad Cenedlaethol | Blaenoriaeth 5 |
| Cam-drin Plant yn Rhywiol | Blaenoriaeth 1 2 3 4 |
| Argyfyngau Sifil | Blaenoriaeth 1 5 |
| Trefn Gyhoeddus | Blaenoriaeth 1 5 |
| Trais yn erbyn Menywod a Merched | Blaenoriaeth 1 2 3 4 5 |

# Blaenoriaethau Plismona Cenedlaethol

Bydd y Cynllun hwn yn ceisio helpu Heddlu De Cymru i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer plismona, a nodwyd gan Lywodraeth y DU, a'i ddwyn i gyfrif am ei berfformiad o ran gwneud hynny. Mae'r Llywodraeth wedi nodi cenhadaeth benodol i sicrhau strydoedd mwy diogel, sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â niwed a hyder ar yr un pryd gan fabwysiadu dull system gyfan o ymdrin â'r canlynol:

**Cenhadaeth Strydoedd Mwy Diogel**

- Haneru trais yn erbyn menywod a merched mewn degawd
- Haneru nifer y troseddau'n ymwneud â chyllyll mewn degawd
- Cynyddu hyder mewn plismona a gwella'r ymateb lleol i droseddu
- Cynyddu hyder yn y System Cyfiawnder Troseddol

Bydd y blaenoriaethau a'r camau gweithredu a nodir yn ein cynllun yn helpu'r Llywodraeth i gyflawni'r genhadaeth hon, gyda chynnydd yn cael ei gofnodi yn y Fframwaith Perfformiad cysylltiedig ar gyfer y Cynllun hwn.

Gyda'r Prif Gwnstabl, byddaf hefyd yn monitro datblygiadau mewn gofynion plismona cenedlaethol newydd ac yn chwarae rhan weithredol mewn diwygiadau hanfodol i blismona er mwyn sicrhau bod Heddlu De Cymru yn parhau i fod yn addas ar gyfer y dyfodol, gan gadw i fyny â newidiadau a dylanwadu ar ddiwygiadau hanfodol i blismona fel y'u nodir yn yr adolygiad o'r dirwedd Blismona.

# 8.0 Themâu Trawsbynciol

Mae'r themâu allweddol hyn yn dylanwadu ar bob un o'r pum blaenoriaeth yn ein Cynllun ac yn llywio ein gweithgareddau ymgysylltu, polisi, cynllunio gwasanaethau a chomisiynu.

- **VAWG** – **Trais yn erbyn Menywod a Merched**
- **CYP** – **Plant a Phobl Ifanc**
- **EDI** – **Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant**
- **PHA** – **Dull Iechyd y Cyhoedd**

## Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG)

Mae lefel a chymhlethdod troseddau a niweidiau sy'n cael effaith anghymesur ar fenywod a merched yn parhau i gynyddu yn genedlaethol.

Mae mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, sydd bellach yn cael ei gydnabod fel bygythiad cenedlaethol ochr yn ochr â therfysgaeth a throseddau cyfundrefnol, a'r problemau hirsefydlog sy'n gysylltiedig â normau o ran rhywedd, disgwyliadau a chasineb at fenywod yn gofyn am ddull system gyfan integredig.

Drwy ymgorffori ffocws ar ddiogelwch menywod a merched ym mhob rhan o'r Cynllun hwn, byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn barod i ymateb yn effeithiol i bob math o drais yn erbyn menywod a merched, mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr o ddiogelu a chefnogi'r rhai yr effeithir arnynt (gan gynnwys gweithio gyda dynion a bechgyn, yn ogystal â menywod a merched), mynd ar ôl cyflawnwyr, herio ymddygiadau ac ysgogi camau ataliol er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol, gan sicrhau canlyniadau gwell i fenywod a merched.





Caiff **Cynllun Trais yn erbyn Menywod a Merched ei ddatblygu ar y cyd** â phartneriaid a bydd yn rhoi cyfeiriad y cytunwyd arno i gefnogi ymateb amlasiantaethol.

# VAWG

Mae'n gasgliad o droseddau sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

1. Cam-drin Domestig
2. Aflonyddu
3. Stelcio
4. Treisio
5. Ymosodiad Rhywiol
6. Llofruddiaeth
7. Cam-drin ar sail anrhydedd a rheolaeth drwy orfodaeth





> Mae angen mwy o ymgysylltu rhwng pobl ifanc a'r heddlu i helpu i newid canfyddiadau pobl ifanc o'r heddlu o oedran ifancach.
>
> ADBORTH Y GYHOEDD

## Plant a Phobl Ifanc

Mae natur heriau, bregusrwydd a niweidiau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu, gartref, yn yr ysgol, ar-lein ac yn eu cymdogaethau yn newid drwy'r amser ac os ydym am ymateb yn effeithiol mae angen i ni ddeall y materion a'r pryderon sy'n bwysig iddynt. Gan fabwysiadu dull "Dull Plant yn Gyntaf", rydym yn cydnabod bod profiadau pobl ifanc o droseddu a niwed yn wahanol i brofiadau oedolion a bod profiadau niweidiol cynnar yn gwneud pobl ifanc yn fwy agored i niwed ac yn cynyddu'r risg y byddant yn ymuno â'r system cyfiawnder troseddol fel dioddefwr neu gyflawnwr. Rydym yn addo sicrhau bod anghenion penodol pobl ifanc (gyda ffocws penodol ar fechgyn a dynion ifanc) wrth wraidd ein gwaith, gan rymuso lleisiau pobl ifanc i nodi problemau, llywio atebion ac ysgogi gweithredu drwy **Gynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder i Blant a Phobl Ifanc** a ddatblygwyd ar y cyd.


# Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant




Tegwch a chydraddoldeb yw egwyddorion sylfaenol plismona a chyfiawnder effeithiol a byddant wrth wraidd popeth a wnawn. Drwy ein gwaith byddwn yn dathlu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth, gan sicrhau ein bod yn deall anghenion pawb ac yn ymateb iddynt (gan ddatblygu ein tystiolaeth a'n data lle y bo angen). Byddwn yn mynd ati i gynnwys a grymuso unigolion a chymunedau i lywio ein gwaith ac, yn bwysig, ein dwyn i gyfrif. Bydd tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn llywio'r ffordd rydym yn gweithio, yn ffurfio ein partneriaethau, yn comisiynu gwasanaethau ac yn meithrin cydberthnasau cymunedol.

# Dull Iechyd y Cyhoedd o Blismona ac Atal Troseddu

Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid er mwyn mabwysiadu dull iechyd y cyhoedd cydweithredol o atal a lleihau troseddu a niwed ledled De Cymru, gan wella canlyniadau cyfiawnder troseddol i unigolion a chymunedau a lleihau aildroseddu. Mae hyn yn golygu gweithio ar draws partneriaid cyfiawnder troseddol, y sector iechyd a'r sector addysg (ymhlith eraill) er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol bregusrwydd fel profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, materion iechyd meddwl ac anghydraddoldebau cymdeithasol drwy ymyrryd yn gynnar a chanolbwyntio ar arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn darparu ymyriadau a chymorth effeithiol.




I ategu'r dull hwn o weithredu, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn ymgorffori Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma, sef Fframwaith i'r gymdeithas gyfan y bwriedir iddo gefnogi dull cyson a chydlynol o ddatblygu ymarfer sy'n ystyriol o drawma a'i roi ar waith ledled Cymru, gan ddarparu'r cymorth gorau posibl i'r rhai y mae ei angen arnynt fwyaf. Mae'r Fframwaith yn nodi sut y gall unigolion, teuluoedd a rhwydweithiau cymorth eraill, cymunedau, sefydliadau a systemau ystyried trallod a thrawma, gan gydnabod a chefnogi cryfderau unigolyn i oresgyn y profiad hwn yn ei fywyd.









PCSO
PCSO


PCSO






CASTELL CAERDYDD
CARDIFF CASTLE
HEDDLU
POLICE

> Lluniwyd y blaenoriaethau i adlewyrchu ein gweledigaeth i sicrhau De Cymru diogel, cyfiawn a chynhwysol.

EMMA WOOLS

# 9.0
# Cyflawni Ein Blaenoriaethau

# Blaenoriaeth 1

## Plismona Gweladwy, Cysylltiedig ac Ymatebol sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned

# Uchelgais

Ennyn ymddiriedaeth pobl mewn plismona lleol drwy sicrhau bod plismona ledled De Cymru yn parhau i fod yn weladwy, yn hygyrch ac yn ymwybodol o anghenion pob cymuned.

## Yr Hyn Rydym yn ei Wybod

Dywedoch chi wrthym mai cael swyddogion plismona yn y gymdogaeth a SCCH gweladwy yn eich cymunedau a'ch ysgolion yw eich prif flaenoriaeth ar gyfer sicrhau bod plismona yn ymateb i anghenion cymunedau.

- Dengys tystiolaeth yn glir fod plismona yn y gymdogaeth yn hanfodol i fynd i'r afael ag ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd.
- Mae Gwarant Plismona yn y Gymdogaeth Llywodraeth y DU yn cefnogi ymrwymiad parhaus Heddlu De Cymru i fuddsoddi mewn plismona yn y gymdogaeth er mwyn sicrhau bod yr heddlu yn weladwy yn ein cymunedau.
- Nododd arolwg o'r cyhoedd a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Heddlu De Cymru fod Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG) yn destun pryder sylweddol i unigolion a bod hyn yn cwmpasu pob rhywedd, grŵp oedran, grŵp ethnig a lleoliad.
- Yn 2023-4, cofnododd Heddlu De Cymru 11,879 o droseddau cymdogaeth (sy'n cyfateb i 10% o'r holl droseddau) a 25,315 o achosion o YG (gan gynnwys y defnydd gwrthgymdeithasol o e-feiciau ac e-sgwteri) yn Ne Cymru, a roddodd gryn bwysau ar adnoddau ac a effeithiodd ar gymunedau.

> Mae angen i deuluoedd a chymunedau ddod at ei gilydd er mwyn rhoi arweiniad i bobl ifanc.
>
> ADBORTH Y GYHOEDD

- Mae troseddu yn aml wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i nifer bach o leoedd, dioddefwyr a chyflawnwyr, gyda data Ymgyrch Sentinel* (2023) yn dangos bod tua 20% o achosion o Drais ac YG yn cael eu cyflawni gan ddim ond 0.3% o awdurdodaeth yr heddlu.
- Yn genedlaethol, mae nifer y troseddau ar y stryd fawr megis dwyn o siopau wedi cyrraedd uchafbwynt newydd. Yn Ne Cymru, mae bron i 14,000 o droseddau dwyn o siopau wedi'u cofnodi yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae adroddiadau am droseddau manwerthu hefyd wedi cynnwys achosion o gam-drin geiriol, trais ac tuag at staff.
- Yn genedlaethol, mae cysylltiad rhwng y lleihad mewn buddsoddiad mewn clybiau ieuenctid a gweithgareddau wedi'u trefnu i bobl ifanc a chynnydd mewn mathau penodol o droseddau ymhlith pobl ifanc[15]. Yn achos De Cymru yn benodol, bu cynnydd yn nifer y troseddau ieuenctid sy'n ymwneud â thrais (heb anaf).
- Mae atal niwed drwy blismona seiliedig ar le effeithiol hefyd yn cynnwys eich cadw'n ddiogel ar y ffyrdd. Er ein bod wedi gweld lleihad sylweddol yn nifer y gwrthdrawiadau a'r anafusion yn gyffredinol, sydd i'w groesawu, mae nifer y marwolaethau o ganlyniad i ddamweiniau traffig ffyrdd wedi aros yn sefydlog dros y degawd diwethaf. Yn benodol, ers 2019, mae cyfran yr anafusion o dan 25 oed wedi cynyddu'n raddol, a'r ffigur diweddaraf (36% yn 2023) yw'r un uchaf ers mwy na degawd.

* Rhaglen plismona mannau problemus Heddlu De Cymru, y bwriedir iddi leihau troseddu a datrys problemau sy'n gysylltiedig â thrais difrifol a throseddau'n ymwneud â chyllyll yn y rhannau o ardal Heddlu De Cymru lle y ceir y lefelau uchaf o niwed, sy'n cyfuno gwybodaeth seiliedig ar ddata â strategaethau gorfodi ac atal wedi'u targedu, yn ogystal â cheisio ymdrin â risgiau uniongyrchol er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais.

BLAENORIAETH

1

# Yr Hyn y Byddwn yn Canolbwyntio Arno

Byddaf yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl a Phartneriaid i wneud y canlynol:

## Amcanion

1. **Diogelu a gwella darpariaeth Plismona yn y Gymdogaeth er mwyn darparu ymateb ymgysylltiol a gweladwy i bob cymuned yn De Cymru, gan gynnwys ffocws ar ysgolion a darpariaeth ieuenctid arall.**
2. **Mabwysiadu dull wedi'i dargedu sy'n seiliedig ar le o leihau nifer y mannau lle y ceir lefelau uchel o droseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG) yn ein trefi, dinasoedd a chymunedau gwledig.**
3. **Mynd i'r afael ag YG cyn gynted â phosibl drwy atal, ymyrryd a gorfodi a thrwy gynyddu hyder y cyhoedd i roi gwybod am droseddau.**
4. **Atgyfnerthu'r dull o ymgysylltu â chymunedau er mwyn annog mwy o bobl i gymryd rhan wrth ymgynghori ar flaenoriaethau lleol ar gyfer plismona.**
5. **Gweithio gyda busnesau lleol a phartneriaethau diogelwch cymunedol i greu canol trefi a dinasoedd mwy diogel (gyda ffocws ar yr economi yn ystod y dydd a'r economi liw nos).**
6. **Tynnu sylw at fesurau i gadw pobl yn ddiogel ar ffyrdd De Cymru drwy ganolbwyntio ar y canlynol: Addysgu, Ymgysylltu, Annog a Gorfodi.**

## Sut y byddwn yn Cyflawni hyn (mae camau gweithredu yn cynnwys):

- Craffu ar, a chefnogi, y broses o roi'r **Warant Plismona yn y Gymdogaeth** ar waith, gan gynnwys hyrwyddo defnydd helaethach o unedau plismona symudol er mwyn cynyddu gweithgarwch ymgysylltu a gwelededd, a buddsoddi yn hynny.
- Cefnogi'r defnydd o Swyddogion/gwasanaeth Ymgysylltu â Phobl Ifanc Heddlu De Cymru mewn ysgolion a darpariaeth ieuenctid arall.
- Ymgorffori'r egwyddorion o Ymgyrch Sentinel (Plismona Mannau lle y Ceir Lefelau Uchel o Droseddu), gan ddefnyddio gwersi a ddysgwyd eisoes ac arferion da.
- Sefydlu rhwydwaith Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Cymru er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd, arferion gorau a chefnogi prosesau datrys problemau ar y cyd mewn perthynas â throseddu ac YG.
- Cyflwyno **cytundebau Atal Troseddu lleol** er mwyn ysgogi gweithredu ar y cyd gyda'r sector plismona, cymunedau a phartneriaid.
- Ailfuddsoddi arian a gymerwyd oddi ar droseddwyr (fel enillion troseddau) er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau ar gyfer atal a lleihau troseddu lleol er budd y gymuned.
- Gweithio gydag Awdurdodau Lleol er mwyn deall y defnydd o **Adolygiadau Achos YG** a chyfleoedd ar gyfer gwella.
- Gwella prosesau rhannu data rhwng awdurdodau cyfrifol er mwyn nodi dioddefwyr a chyflawnwyr mynych a pharhaus YG ac ymateb iddynt.
- Cyflwyno **model ymgysylltu â dinasyddion** er mwyn helpu i lywio blaenoriaethau plismona lleol (e.e. drwy blatfformau ar-lein, hybiau cymunedol, paneli/fforymau cymunedol).
- Ystyried y defnydd o dechnoleg i gefnogi Plismona yn y Gymuned gan gynnwys adolygiad o ddarpariaeth CCTV.
- Gweithio gydag Ardaloedd Gwella Busnes a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni **Cynllun Gweithredu Troseddau Manwerthu Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu**, gyda ffocws penodol ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn gweithwyr siopau.
- Nodi cyfleoedd i gynyddu mentrau diogelwch sy'n ymwneud â'r economi liw nos a oedd yn cael eu hariannu'n flaenorol drwy grantiau Strydoedd Mwy Diogel y Swyddfa Gartref.
- Codi ymwybyddiaeth a gwella addysg mewn perthynas â'r risg o yrru dan ddylanwad cyffuriau drwy ymgyrch gyfathrebu gyhoeddus.
- Cefnogi **gwasanaeth eirioli diogelwch ar y ffyrdd** i Gymru gyfan ar gyfer pobl y mae damweiniau ffordd difrifol wedi effeithio arnynt.

## Themâu Trawsbynciol:

VAWG CYP EDI PHA

## Canlyniadau

- **Bydd Ymddiriedaeth a Hyder yn Cynyddu.**
- **Caiff Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol eu Lleihau.**
- **Bydd Pobl sy'n Agored i Niwed yn Cael eu Diogelu'n Well.**
- **Bydd Llai o Bobl yn cael eu Hanafu'n Ddifrifol neu eu Lladd ar y Ffyrdd yn Ne Cymru.**
- **Bydd Pobl yn Teimlo'n Fwy Diogel.**


SWYDDOG CYMUNEDOL
POLICE COMMUNITY SUPPORT
POLICE
COMMUNITY SUPPORT OFFICER
CSO POLICE
sepura
FAIRWATER

# Blaenoriaeth 2

## Atal Troseddu a Lleihau Trais

# Uchelgais

Cydweithio a thargedu buddsoddiad i ymyrryd yn gynnar er mwyn lleihau niwed, troseddu a thrais, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.

## Yr Hyn Rydym yn ei Wybod

Yn ein hymgynghoriad â'r cyhoedd, cytunodd saith o bob 10 unigolyn mai'r strategaeth orau i leihau troseddu yw cyfuniad o atal a gorfodi.

> Mae ymateb rhagweithiol bob amser yn well nag un adweithiol.

ADBORTH Y CYHOEDD

- Atal troseddu ac anhrefn yw cenhadaeth sylfaenol plismona ac mae'n dibynnu ar gydsyniad a chydweithrediad y cyhoedd. Mae strategaethau ataliol yn bwysig ar gyfer lleihau costau cymdeithasol ac economaidd troseddu, gan eu bod yn gwneud cymunedau yn fwy diogel ac yn lleihau'r galw am wasanaethau plismona a gwasanaethau ehangach.
- Dros y degawd diwethaf gwelwyd newid mewn patrymau troseddu ledled Cymru a Lloegr. Yn Ne Cymru, bu cynnydd sylweddol yn nifer y troseddau treisgar,

yn unol â thueddiadau cenedlaethol, a oedd yn cyfrif am 55% o'r holl droseddau yn 2023-24.

- Mae'r Ddyletswydd Trais Difrifol yn gosod gofyniad statudol ar bartneriaethau diogelwch cymunedol i gydweithio er mwyn atal trais difrifol gan bobl dan 25 oed neu yn eu herbyn[16], tra bod Cenhadaeth Strydoedd Mwy Diogel Llywodraeth y DU yn cynnwys ymrwymiad i haneru nifer y troseddau'n ymwneud â chyllyll a thrais yn erbyn menywod a merched dros y degawd nesaf.
- Mae mabwysiadu dull 'Atal yn Gyntaf' o fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n ysgogi trais a throseddu yn ein cymunedau (megis camddefnyddio sylweddau, cam-drin / trais a thrawma domestig) yn hanfodol i ddiogelu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed, lleihau aildroseddu a thorri'r cylch o gam-drin cenedliadol.
- Mae Cyffuriau, Alcohol ac Iechyd Meddwl gwael yn ffactorau sy'n codi dro ar ôl tro mewn amrywiaeth o fathau o droseddau. Mae gweithgarwch sy'n ymwneud â chyffuriau yn gysylltiedig â mwy na hanner y lladdiadau a throseddau meddiangar[17], tra bod alcohol yn ffactor mewn 49% o droseddau treisgar yng Nghymru. Mae iechyd meddwl yn effeithio ar tua 30% o bobl yn nalfa'r heddlu[18].
- Mae'r heriau, y bregusrwydd a'r niweidiau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu gartref ac mewn ysgolion a chymdogaethau yn newid drwy'r amser. Maent yn fwy agored i gamfanteisio, bod yn ddioddefwyr neu ymuno â'r system cyfiawnder, sy'n pwysleisio pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar a strategaethau atal sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc, yn cynnwys ar gyfer bechgyn a dynion ifanc.
- Lle bu cydweithrediadau partneriaeth effeithiol i fynd i'r afael â thrais er enghraifft, drwy'r Uned Atal Trais, rydym wedi gweld canlyniadau cadarnhaol sy'n ymwneud â lleihad sylweddol yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty. Mae'r dystiolaeth hon yn rhoi'r ddadl dros ymestyn cwmpas y dull hwn o weithredu i gynnwys mathau eraill o droseddau a niwed.




> Bydd pobl ifanc bob amser yn cael eu targedu gan droseddwyr a delwyr cyffuriau ac, felly, mae angen i ni eu hamddiffyn.
>
> ADBORTH Y CYHOEDD

BLAENORIAETH

2

# Yr Hyn y Byddwn yn Canolbwyntio Arno

Byddaf yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl a Phartneriaid i wneud y canlynol:

## Amcanion

1. **Ymgorfforі/hyrwyddo dull plismona ataliol er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i atal niwed i'r cyhoedd a lleihau'r galw.**

2. **Atal a lleihau ffactorau ysgogi troseddu, gan roi blaenoriaeth i niwed a bregusrwydd lefel uchel, gan ganolbwyntio ar y canlynol:**
   - **Trais a Chamfanteisio (gan gynnwys camfanteisio ar blant yn droseddol ac yn rhywiol)**
   - **Camddefnyddio sylweddau**
   - **Casineb a Radicaleiddio**
   - **Iechyd meddwl, ac effeithiau trawma**
   - **Pobl ifanc sy'n wynebu risg o gymryd rhan mewn troseddau.**

3. **Atal trais a lleihau ei effaith yn unol â'r Ddyletswydd Trais Difrifol, gyda ffocws allweddol ar y canlynol:**
   - **Troseddau'n ymwneud â chyllyll**
   - **Trais yn erbyn menywod a merched.**

4. **Deall profiadau ac anghenion plant a phobl ifanc ac ymateb iddynt yn well, gan ddefnyddio data a gwybodaeth i nodi'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf.**

5. **Atgyfnerthu'r dull o ymgysylltu â phobl ifanc ynglŷn â'r materion plismona a chyfiawnder sy'n effeithio arnynt.**

## Sut y byddwn yn cyflawni hyn (Mae camau gweithredu yn cynnwys):

- Sefydlu **partneriaeth Atal Troseddu a Lleihau Trais De Cymru** er mwyn cefnogi a goruchwylio gwaith Uned Atal ac Ymateb i Drais De Cymru ac atgyfnerthu camau gweithredu cyfunol a chydgysylltiedig er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau ar gyfer atal troseddu a niwed a lleihau trais.
- Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i addysgu pobl ifanc am berthnasoedd iach ac ymddygiadau niweidiol, gan ystyried y defnydd o dechnoleg i wneud hynny (e.e. treialu 'None in 3').
- Gweithio gyda byrddau iechyd lleol partner i adeiladu ar dimau atal trais mewn ysbytai a'u cynnal.
- Gweithio gyda Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, Awdurdodau Lleol a phartneriaid i wella prosesau rhannu data a gwybodaeth er mwyn nodi achosion o drais a chamfanteisio ymhlith plant a phobl ifanc ac ymateb iddynt yn well.
- Defnyddio tystiolaeth am arferion gorau o Becyn Cymorth y Gronfa Gwaddol Ieuenctid (gan gynnwys mentrau sy'n seiliedig ar chwaraeon) a Fframwaith Cymru Heb Drais er mwyn llywio buddsoddi mewn ymyriadau effeithiol i ymgysylltu â phobl ifanc sy'n wynebu risg a darparu llwybrau i ffwrdd oddi wrth drais a chamfanteisio.
- Ehangu ac atgyfnerthu ymgyrch **Ddim yr Un** er mwyn cefnogi oedolion y gellir ymddiried ynddynt, gan gynnwys rhieni, athrawon, swyddogion yr heddlu a gweithwyr ieuenctid, i addysgu plant a phobl ifanc am beryglon a chanlyniadau cario cyllell.
- Ar y cyd â phartneriaid, arwain y broses o ddatblygu **Partneriaethau, Paneli a Hybiau Atal 'Young Futures'** a'u rhoi ar waith ym mhob ardal Awdurdod Lleol.
- **Cyflwyno Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder ar gyfer Plant a Phobl Ifanc** a luniwyd gan Bobl Ifanc (11-24 oed) ac ar eu cyfer, sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

## Themâu Trawsbynciol:

VAWG | CYP | EDI | PHA

## Canlyniadau

- **Bydd Ymddiriedaeth a Hyder yn Cynyddu.**
- **Caiff Troseddu (gan gynnwys Troseddau Treisgar) ei Leihau.**
- **Bydd Llai o Blant a Phobl Ifanc yn Dod yn Rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol.**
- **Bydd Pobl yn Teimlo'n Fwy Diogel.**

# Blaenoriaeth 3

## Diogelu Pobl a Chymunedau sy’n Agored i Niwed, gan gynnwys Ar-lein

# Uchelgais

Cadw pobl a chymunedau sy'n agored i niwed yn ddiogel rhag achosion o gamfanteisio a niwed.

## Yr Hyn Rydym yn ei Wybod

Dywedoch chi wrthym mai mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched a diogelu pobl a lleoedd rhag camfanteisio gan gangiau troseddol yn arbennig o bwysig i chi.

"Am rhy hir, rydym wedi clywed y straeon ofnadwy, gofidus ac anghredadwy o drais yn erbyn menywod a merched. Mae angen i ni fynd i'r afael ag achosion sylfaenol, gan weithio gyda'n gilydd drwy gyfnod o drawsnewid cymdeithasol cadarnhaol er mwyn rhoi diwedd ar drais yn erbyn menywod a merched.

EMMA WOOLS

- Mae trais yn erbyn menywod a merched wedi cyrraedd lefelau epidemig ac mae'n parhau i godi, nid yn unig o ran nifer yr achosion, ond hefyd o ran ei gymhlethdod. Yn 2024, nododd yr Ysgrifennydd Cartref fod trais yn erbyn menywod a merched yn Ofyniad Plismona Strategol, sy'n golygu bod yn rhaid iddo gael ei gydnabod fel bygythiad cenedlaethol.
- Yn 2023-24, roedd troseddau'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched yn cyfrif am 32% o'r holl droseddau yn Ne Cymru. Roedd stelcio ac aflonyddu yn cyfrif am tua hanner y troseddau hyn. Mae cenhadaeth Strydoedd Mwy Diogel y Llywodraeth Lafur yn cynnwys targed uchelgeisiol i haneru nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod a merched mewn degawd[19].

- Yn aml, gall bod yn ddioddefwr trosedd casineb gael effaith hirbarhaol ac eang. Mae De Cymru wedi cofnodi nifer cynyddol o droseddau casineb, gyda 3,117 o droseddau casineb (gan gynnwys ar-lein) yn cael eu cofnodi yn 2023-24, sef cynnydd o 9% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd mwy na hanner y troseddau hyn (1,720) yn ymwneud â hil ac roedd 192 yn droseddau casineb a oedd yn gysylltiedig â chrefydd. Ond gwyddom fod hwn yn faes lle mae nifer y troseddau yn cael eu tangofnodi.

- Mae ymddiriedaeth mewn plismona yn allweddol i greu cydlyniant cymunedol da, gan alluogi ymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn yn ein cymdogaethau.

- Yn fwyfwy, rydym yn gweld mathau mwy cymhleth a soffistigedig o droseddau, gyda gofynion sylweddol sy'n newid drwy'r amser yn gysylltiedig â **throseddau dulliau seiber** (megis **twyll**, seiberstelcio, blacmel rhywiol a radicaleddio ar-lein), a deallusrwydd artiffisial, technoleg ffugio dwfn a chamfanteisio ar bobl sy'n agored i niwed ar-lein (gan gynnwys plant a phobl hŷn).

- Mae nifer y troseddau cyfundrefnol/troseddau'n ymwneud â llinellau cyffuriau yn parhau i gynyddu ledled Cymru a Lloegr, gyda throseddwyr yn aml yn camfanteisio ar blant ac oedolion sy'n agored i niwed drwy eu gorfodi i gynhyrchu a chyflenwi cyffuriau, sef y math mwyaf cyffredin o gamfanteisio a welwyd dros y degawd diwethaf.

> Mae yna lawer o gasineb tuag at unrhyw un sy'n cael ei labelu fel 'gwahanol', felly mae mynd i'r afael â throseddau casineb yn angenrheidiol.
>
> ADBORTH Y CYHOEDD

- Mae plant a phobl ifanc yn agored iawn i gamdriniaeth a chamfanteisio. Mae Adolygiad Jay[20] wedi codi pryderon ynghylch cyffredinrwydd ac effaith meithrin perthynas amhriodol â phlant a chamfanteisio ar blant, yn dilyn cyfres o achosion a gafodd gryn sylw yn y cyfryngau. Yn 2020, mabwysiadodd Heddlu De Cymru Siarter Hawliau Plant, sy'n amlinellu sut y bydd yr heddlu yn diogelu hawliau plant ac yn eu cadw'n ddiogel[21].

- Mae llawer o ffactorau sy'n dylanwadu ar fregusrwydd plentyn/person ifanc i gamfanteisio – yn y cartref ac yn eu hamgylchedd allanol ehangach (gan gynnwys ar-lein). Er mwyn mynd i'r afael â hyn yn effeithiol, mae angen i ni fabwysiadu dull plant yn gyntaf cyfannol, gan roi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal.

BLAENORIAETH

3

# Yr Hyn y Byddwn yn Canolbwyntio Arno

Byddaf yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl a Phartneriaid i wneud y canlynol:

## Amcanion

1. **Nodi cymunedau sy'n wynebu risg a chymunedau cymhleth a chydweithio â phartneriaid er mwyn i'r afael â'r materion allweddol sy'n effeithio arnynt, gan wella diogelwch, gwydnwch a llesiant.**

2. **Diogelu a chefnogi dioddefwyr pob math o drais yn erbyn menywod a merched (gan gynnwys stelcio) a deall y ffactorau sy'n ysgogi troseddu o'r fath yn well ac ymateb iddynt yn briodol drwy ddull system gyfan.**

3. **Helpu i wella cydlyniant cymunedol drwy gynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb, yr hyder i roi gwybod amdanynt a'r ymateb iddynt.**

4. **Diogelu pobl rhag niwed ar-lein, gan ganolbwyntio ar y rheini a all fod yn agored i gamfanteisio a/neu i gael eu radicaleiddio.**

5. **Ymestyn y dull diogelu cyd-destunol amlasiantaethol i gadw pobl sy'n agored i niwed yn ddiogel ledled De Cymru.**

6. **Lleihau nifer yr achosion o gamfanteisio ar bobl a lleoedd sy'n agored i niwed drwy helpu i dargedu troseddau cyfundrefnol, cyflenwadau cyffuriau a llinellau cyffuriau a tharfu arnynt.**

## Sut y byddwn yn cyflawni hyn (Mae camau gweithredu yn cynnwys):

- Defnyddio dull seiliedig ar ddata Ymgyrch Sentinel i nodi mannau a allai fod yn rhai problemus o ran troseddu, YG a bregusrwydd, a gweithio gyda phartneriaid i ymateb yn effeithiol.
- Gweithio gyda Byrddau Iechyd ledled De Cymru er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o ddata Adrannau Achosion Brys er mwyn i bartneriaid allu nodi mannau â lefelau uchel o drais a bregusrwydd yn yr economi liw nos.
- Ystyried adnoddau a allai helpu i nodi a thargedu mannau lle mae risg uchel o Drais yn erbyn Menywod a Merched.
- Helpu i ddatblygu mannau diogel mewn cymunedau a threfniadau hyb ar gyfer grwpiau allweddol sy'n agored i niwed, gan gynnwys menywod a phobl ifanc.
- Gweithio gyda'r sector plismona a phartneriaid er mwyn datblygu **Cynllun Gweithredu ar y Cyd ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a Merched**, gan ystyried Fframwaith Trais yn erbyn Menywod a Merched Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.
- Hyrwyddo dysgu o Ymgyrch Soteria a'i gymhwysol at fathau eraill o VAWG.
- Ystyried y posibilrwydd o roi model amlasianaethol ar waith er mwyn gwella'r ymateb i stelcio.
- Monitro a chefnogi'r defnydd effeithiol o Orchmynion Atal ac Amddiffyn a'r Cynllun Datgelu Trais Domestig (Cyfraith Clare).
- Comisiynu adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o ymatebion i droseddau casineb a'u canlyniadau.
- Craffu ar berfformiad yr Heddlu o ran ei ymateb i droseddau casineb y rhoddwyd gwybod amdanynt ac ennyn hyder y cyhoedd i roi gwybod amdanynt.
- Cyflwyno **cynllun Cenhadon Cymunedol** er mwyn helpu i godi pontydd rhwng cymunedau wedi'u hymyleiddio a'r heddlu, gan wella ymddiriedaeth a lleihau tensiynau.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol er mwyn datblygu a chyhoeddi **Strategaeth Diogelwch ac Atal Troseddu Ar-lein**, gan helpu i roi'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ar waith.
- Gweithio gyda phartneriaid i wella dealltwriaeth a'r ymateb i risgiau y gall pobl ifanc eu hwynebu mewn ysgolion, cymunedau lleol, yn eu grwpiau cymheiriaid neu ar-lein.
- Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â mythau, camwybodaeth a thwyllwybodaeth ar-lein, gan gynnwys mewn ysgolion.
- Hyrwyddo dysgu gan dimau diogelu a chamfanteisio amlasiantaethol yn Ne Cymru.
- Cefnogi'r broses o roi'r dull **Clirio, Dal, Adeiladu** o fynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol ar waith ymhellach mewn cymunedau dan fygythiad, ystyried methodoleg ar gyfer datrys problemau cymhleth eraill.

**Themâu Trawsbynciol:** VAWG CYP EDI PHA

## Canlyniadau

- **Bydd Ymddiriedaeth a Hyder yn Cynyddu.**
- **Bydd Pobl sy'n Agored i Niwed yn Cael eu Diogelu'n Well.**
- **Bydd Pobl yn Teimlo'n Fwy Diogel.**




Rhaid sicrhau bod gan yr heddlu bresenoldeb gweladwy, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n wynebu llawer o drafferthion. Mae gwelededd yn allweddol.

ADBORTH Y CYHOEDD

# Blaenoriaeth 4

## Sicrhau Cyfiawnder i Ddioddefwyr a Lleihau Aildroseddu

# Uchelgais

Gyda phartneriaid cyflawni'r blaenoriaethau a rennir gennym er mwyn cryfhau cymorth i ddioddefwyr, gwella canlyniadau cyfiawnder i bawb a lleihau aildroseddu.

"

Rwy'n meddwl taw'r unig ffordd i dorri'r cylch yw cynnig cyfle i bobl newid.

ADBORTH Y CYHOEDD

## Yr Hyn Rydym yn ei Wybod

Dywedoch chi wrthym mai gwella cymorth i ddioddefwyr drwy'r broses cyfiawnder troseddol, sicrhau cyfiawnder effeithiol a chynyddu nifer yr erlyniadau yn bwysig iawn i chi.

- Mae gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gyfrifoldeb statudol o fewn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol i ddod â phartneriaid at ei gilydd er mwyn helpu i ysgogi gwelliannau ym mhob rhan o'r system er budd ein cymunedau.
- Gall diffyg hyder yn yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol ehangach olygu bod pobl yn amharod i roi gwybod am droseddau neu gymryd rhan yn y broses cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn achos rhoi gwybod am drais yn erbyn menywod a merched, troseddau casineb a chamfanteisio.

- Er bod lefel boddhad dioddefwyr â'r cyswllt cychwynnol gan Heddlu De Cymru yn parhau i fod yn uchel (86%), mae'r ffigur hwn yn lleihau dros amser, gyda 57% yn fodlon ar y camau dilynol a gymerwyd[22].

- Gwyddom fod angen gwella ymddiriedaeth a hyder dioddefwyr yn y system gyfiawnder. Roedd bron i dri chwarter y dioddefwyr a arolygwyd yng Nghymru a Lloegr yn amau a fyddai rhoi gwybod am drosedd yn arwain at gyfiawnder ac roedd llai na un o bob pump yn ymwybodol o'u hawliau o dan y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr[23].

- Mae ansawdd y cymorth a roddir i ddioddefwyr yn hollbwysig. Nododd Adolygiad diweddar o Wasanaethau Dioddefwyr (a Thystion) yn Ne Cymru anghenion heb eu diwallu yn ymwneud â dioddefwyr stelcio ac aflonyddu; teuluoedd sy'n dioddef profedigaeth o ganlyniad i ddigwyddiadau traffig; dioddefwyr niwed ar-lein a phlant a phobl ifanc.

- Yn Ne Cymru, mae tua 24% o'r holl gyhuddiadau yn arwain at dreial wedi'i gwblhau[23]. Er gwaethaf gwelliannau nodedig, mae cyfraddau cyhuddo ac euogfarnu ar gyfer troseddau penodol megis Stelcio ac Aflonyddu yn parhau i fod yn isel.

- Ers tro byd cydnabuwyd bod Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn adnodd pwysig ym mhecyn adnoddau'r system cyfiawnder troseddol. Ystyrir eu bod yn ymateb effeithlon ac effeithiol i ymddygiad troseddol, yn enwedig yn achos troseddu lefel isel, a'u bod yn cynnig cyfle i gynnwys y dioddefwr yn fwy yn y broses. Fodd bynnag, prin yw'r defnydd a wneir ohonynt yn Ne Cymru.

- Mae data yn parhau i ddangos gwahaniaethau mewn canlyniadau cyfiawnder troseddol ar gyfer carfanau penodol megis y rhai o gefndiroedd ethnig leiafrifol a menywod. Er enghraifft, o adeg arestio hyd at erlyn, dedfrydu a charcharu, mae pobl ethnig leiafrifol yn aml yn wynebu canlyniadau gwaeth[25], tra bod menywod yn cael eu gorgynrychioli ym mhoblogaeth y carchardai (o gymharu â dynion), yn aml am droseddau lefel isel a throseddau risg isel megis dwyn[26].

- Dengys ffigurau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024) fod cyfraddau aildroseddu yn Ne Cymru yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer oedolion a phobl ifanc[27], yn arbennig ymhlith y rhai a gyflawnodd droseddau dwyn (62%) a throseddau treisgar (32%)[26], sy'n dangos bod angen parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni ac ymyriadau effeithiol ar gyfer y carfanau hyn.

BLAENORIAETH

4

# Yr Hyn y Byddwn yn Canolbwyntio Arno

Byddaf yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl a Phartneriaid i wneud y canlynol:

## Amcanion

1. **Cefnogi gwelliannau mewn canlyniadau cyfiawnder i bawb, gan ganolbwyntio'n benodol ar gam-drin/trais domestig a rhywiol a throseddau casineb.**

2. **Gwella goruchwyliaeth o brofiadau dioddefwyr a goroeswyr o'r pwynt cyswllt cyntaf â'r heddlu a thrwy'r broses cyfiawnder troseddol, yn unol â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr.**

3. **Sicrhau bod gwasanaethau cymorth ac adfer effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gael i ddioddefwyr a thystion a chreu mwy o gyfleoedd i ddylanwadu ar welliannau i bolisïau ac arferion a'u llywio.**

4. **Cynyddu nifer y bobl (gan gynnwys plant a phobl ifanc) a gaiff eu dargyfeirio o'r system Cyfiawnder Troseddol ar gyfer troseddau lefel isel, ac at gymorth er mwyn diwallu anghenion cysylltiedig â throseddu yn well.**

5. **Lleihau gwahaniaethau ac anghymesuredd mewn canlyniadau, gan ganolbwyntio ar y rhai o gefndiroedd ethnig amrywiol a menywod.**

6. **Cydweithio â'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, y System Cyfiawnder Ieuenctid a phartneriaid i ddarparu ymyriadau a gwasanaethau effeithiol y bwriedir iddynt leihau aildroseddu.**

## Sut y byddwn yn cyflawni hyn (Mae camau gweithredu yn cynnwys):

- Drwy'r **Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol**, ar y cyd â phartneriaid, llunio cynllun gwella canlyniadau cyfiawnder (o roi gwybod am drosedd i'r llys), gan ystyried argymhellion Arolygiaeth Cwnstabliaeth EF.
- Cyflwyno mecanwaith monitro cadarn er mwyn goruchwylio a gwella cydymffurfiaeth asiantaethau â'r **Cod Ymarfer i Ddioddefwyr**.
- Hyrwyddo rhoi dulliau sy'n ystyriol o drawma, yn ymatebol i rywedd ac yn ddiwylliannol gymwys ar waith a'u hymgorffori ar draws y sector Plismona, y System Cyfiawnder Ieuenctid a gwasanaethau wedi'u comisiynu..
- Penodi **Hyrwyddwr Dioddefwyr** er mwyn hyrwyddo'r 12 hawl a amlinellir yn y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr a dadlau drostynt.
- Gweithredu ar ganfyddiadau (lle y bo'n briodol) o Asesiad statudol SCHTh o Anghenion Dioddefwyr ar gyfer De Cymru.
- Ehangu **Rhwydwaith Goroeswyr Trais yn erbyn Menywod a Merched**, gan ddefnyddio gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad diweddar.
- Annog gwelliannau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol o **Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys ac Ymyriadau** y bwriedir iddynt ddargyfeirio pobl ifanc oddi wrth droseddu.
- Helpu i ymgorffori'r Dull Plant yn Gyntaf o fewn plismona.
- Sefydlu Panel Craffu ar Anghymesuredd er mwyn helpu i ddileu gwahaniaethau mewn profiadau a chanlyniadau yn y system cyfiawnder troseddol.
- Gweithio gyda'r heddlu a phartneriaid i lunio **Cynllun Lleihau Aildroseddu**, wedi'i lywio gan asesiad strategol o droseddau, troseddu ac anghenion ledled De Cymru.
- Ymgysylltu â phartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol a'r sector diogelwch cymunedol er mwyn ystyried comisiynu cynghreiriau i ddarparu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag ymddygiad troseddu, gan roi blaenoriaeth i genhedlaeth newydd o wasanaethau trin ac ymyrryd camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau cynaliadwy i gyflawnwyr VAWG.

**Themâu Trawsbynciol:** VAWG | CYP | EDI | PHA

## Canlyniadau

- **Bydd Ymddiriedaeth a Hyder yn Cynyddu.**
- **Mae Dioddefwyr a Thystion yn cael eu Cefnogi'n Well.**
- **Bydd Llai o Blant a Phobl Ifanc yn Dod yn Rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol.**
- **Caiff Anghymesuredd mewn Canlyniadau Cyfiawnder ei Leihau.**
- **Caiff Cyfraddau Aildroseddu eu Lleihau.**
- **Bydd Pobl yn Teimlo'n Fwy Diogel**




> Heb gyfiawnder go iawn, mae'r cylch trosedd a dialedd yn parhau, felly dioddefwyr sy'n dod yn gyntaf.

ADBORTH Y CYHOEDD

# Blaenoriaeth 5

## Plismona sy'n Addas ar gyfer y Dyfodol

# Uchelgais

Meithrin hyder y cyhoedd yn Heddlu De Cymru drwy sicrhau safonau uchel, plismona moesegol a heddlu sy’n barod ar gyfer y dyfodol.

## Yr Hyn Rydym yn ei Wybod

Dywedoch chi wrthym mai paratoi ar gyfer mathau newydd o droseddau, hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd a manteisio ar dechnoleg newydd ac arloesedd yn arbennig o bwysig i heddlu sy’n addas ar gyfer y dyfodol.

- Mae cymdeithas wedi bod yn newid yn fwyfwy cyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae gennym gyfrifoldeb i gyhoedd De Cymru i sicrhau bod gwasanaeth yr heddlu yn gyfredol o ran ei alluoedd a’i fod yn barod ar gyfer heriau’r dyfodol.
- Mae’n rhaid i wasanaeth heddlu modern adlewyrchu’r cymunedau a wasanaethir ganddo. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gweithlu amrywiol yn fwy tebygol o gael ei ystyried yn un dilys a theg gan y cyhoedd, o fod mewn gwell sefyllfa i ddeall amrywiadau diwylliannol ac ymdrin â nhw ac o wella perfformiad y sefydliad a chreu amgylchedd cadarnhaol a chynhwysol i weithio yndddo.

> Gellid cyflawni pethau enfawr petai'r heddlu yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth a gwrthwahaniaethu.
>
> ADBORTH Y CYHOEDD

- Mae gan Dde Cymru rai o'r cymunedau mwyaf amrywiol yng Nghymru ac eto dim ond 3.4% o swyddogion yr heddlu a 2.1% o staff yr heddlu sy'n nodi eu bod o gefndir ethnig leiafrifol o gymharu â 9.3% o'r boblogaeth. Er ei fod yn ddarlun gwell o ran cynrychiolaeth menywod yn y gweithlu, mae meysydd i'w gwella yn y gweithlu plismona o hyd.

- Yn genedlaethol, mae agweddau'r cyhoedd tuag at blismona wedi gwaethygu oherwydd achosion proffil uchel o gamymddwyn ac ymddygiad troseddol ymhlith swyddogion sy'n gwasanaethu. Mae canfyddiad o hiliaeth a chasineb at fenywod o fewn plismona hefyd wedi cyfrannu at farn negyddol gynyddol.

- Mae tystiolaeth yn awgrymu bod ymddiriedaeth yn yr heddlu ledled Cymru a Lloegr wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'i bod yn amrywio yn ôl ethnigrwydd a rhyw[28].

- Er i Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi gydnabod yn 2023-2025[28] y gwaith y mae Heddlu De Cymru wedi'i wneud i ysgogi gwelliannau yn y defnydd o bwerau'r heddlu, gan drin y cyhoedd yn deg a gyda pharch[29], canfyddiad y cyhoedd yw bod angen gwneud rhagor o waith i roi sicrwydd a sicrhau tryloywder.

- Mae troseddwyr yn manteisio'n gyflym ar y defnydd o dechnoleg newydd, gyda throseddau a niwed a hwylusir gan ddulliau seiber a deallusrwydd artiffisial, megis twyll, cribddeilio, blacmel rhywiol, bwlio ar-lein, seiberstelcio, rheolaeth drwy orfodaeth a radicaleiddio, yn fygythiad sylweddol sy'n dod i'r amlwg. Mae'n amlwg bod angen i faes plismona ddatblygu technolegau newydd er mwyn cadw i fyny â'r defnydd troseddol o'r un technolegau a mynd i'r afael â hynny.

- Mae'r cynnydd yn nifer  y troseddau (sef 26% dros y degawd diwethaf) a'u cymhlethdod yn effeithio ar y galw am wasanaethau plismona. Gall defnyddio technoleg newydd ac arloesedd arbed amser ac arian a rhyddhau adnoddau i swyddogaethau plismona hollbwysig, cynyddu cynhyrchiant ac, yn y pen draw, sicrhau gwasanaeth gwell i ddioddefwyr a'r cyhoedd.

- Gall lledaeniad camwybodaeth a thwyllwybodaeth ar-lein gael effaith andwyol ar unigolion a chymunedau, gan fygwth diogelwch y cyhoedd a chydlyniant cymunedol. Mae adroddiad Global Risks 2025 yn nodi bod lledaeniad mwyfwy cyflym gwybodaeth ffug a chamarweiniol ymhlith y 10 risg uchaf[30].

- Mae camwybodaeth ar-lein yn ysgogi ymrannu, gyda therfysgoedd yn 2024 yn costio £31.7 miliwn ac yn cael effaith anghymesur ar grwpiau sy'n agored i niwed. Mae pobl ifanc yn enwedig yn wynebu risg, gyda 17% o'r rhai a gafodd eu harestio yn nherfysgoedd 2024 dan 18 oed.

- Bydd angen i heddluoedd gael yr adnoddau ariannol a'r galluoedd arbenigol angenrheidiol er mwyn rhagweld anghenion eu cymunedau a rheoli'r galw am y gwasanaeth nawr ac yn y dyfodol.

BLAENORIAETH

5

# Yr Hyn y Byddwn yn Canolbwyntio Arno

Byddaf yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl a Phartneriaid i wneud y canlynol:

## Amcanion

1. **Ennyn hyder y cyhoedd o ran diwylliant a safonau'r Heddlu.**

2. **Hyrwyddo a chefnogi mwy o amrywiaeth a chynrychiolaeth yng ngweithlu Heddlu De Cymru ar bob lefel.**

3. **Cefnogi a hyrwyddo:**
   - **Datblygiadau gwyddonol a thechnolegol i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant prosesau atal a chanfod troseddau a diogelu.**
   - **Datblygiadau technolegol a digidol o fewn Plismona a helpu i'w rhoi ar waith mewn ffordd foesegol, dryloyw, gymesur a chyfreithlon.**

4. **Datblygu ymateb partneriaeth effeithiol er mwyn helpu i fynd i'r afael ag effaith camwybodaeth a thwyllwybodaeth ar-lein ar unigolion a chymunedau a'i lliniaru.**

5. **Sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl yr adnoddau angenrheidiol i sicrhau bod gan yr Heddlu y galluoedd a'r capasiti i ymateb i ofynion presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg, gan sicrhau gwerth am arian.**

## Sut y byddwn yn cyflawni'r Amcanion hyn (Mae camau gweithredu yn cynnwys):

- Sefydlu **Bwrdd Goruchwylio Diwylliant a Safonau** penodedig a gwella'r defnydd a wneir o ddata i oruchwylio cwynion.
- Monitro cyfraddau llwyddo mewn asesiadau recriwtio cychwynnol a'r sefyllfa o ran cadw a dyrchafu staff Du ac Ethnig leiafrifol yn yr Heddlu.
- Cynnig cyfleoedd i bobl o gefndiroedd amrywiol ddysgu am waith SCHTh drwy raglenni interniaeth.
- Adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o ddulliau gweithredu megis TABW (sef gwasanaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig a gyflawnir gan swyddogion yr heddlu) er mwyn atgyfnerthu'r ddarpariaeth **eirioli annibynnol** wrth roi gwybod am bryderon ynghylch yr heddlu.
- Cefnogi ymgysylltu ag arbenigwyr ac academyddion a'u defnyddio mewn perthynas â datblygu technolegau newydd a chyfleoedd ar gyfer eu rhoi ar waith.
- Ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio'r Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol i gefnogi'r **gwaith o graffu ar wyddoniaeth a thechnoleg a'u goruchwylio.**
- Cydweithio â phartneriaid yn y sector plismona, y sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn nodi strategaethau ac adnoddau (gan gynnwys atebion technolegol) i darfu ar gyhoeddi, lledaeniad a dylanwad **camwybodaeth a thwyllwybodaeth**, eu profi a'u rhoi ar waith.
- Lobïo Llywodraeth y DU am **grant cyllid prifddinas** er mwyn gwella gallu'r heddlu i fodloni gofynion plismona prifddinas a sicrhau cydraddoldeb â phrifddinasoedd eraill y DU.
- Cefnogi'r ymateb plismona i ofynion plismona strategol a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg (digwyddiadau mawr a chritigol, seiberddigwyddiadau cenedlaethol, gweithredoedd terfysgol, argyfyngau sifil ac anhrefn gyhoeddus).

## Themâu Trawsbynciol

VAWG CYP EDI PHA

## Canlyniadau

- **Bydd Ymddiriedaeth a Hyder yn Cynyddu.**
- **Ceir Gweithlu Mwy Amrywiol.**
- **Bydd Pobl sy'n Agored i Niwed yn Cael eu Diogelu'n Well (gan gynnwys ar-lein).**


# 10.0
# Sut y Byddwn yn Goruchwylio'r Broses o Gyflawni'r Cynllun ac yn Dwyn yr Heddlu i Gyfrif

## Goruchwylio, Cyflawni a Strwythur Atebolrwydd

Rhan allweddol o'm rôl fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru yw bod yn llais i bobl leol ym maes plismona. Er mwyn gwneud hyn, rwyf wedi sefydlu strwythur llywodraethu ac atebolrwydd cadarn er mwyn i mi allu goruchwylio'r broses o gyflawni'r Cynllun hwn a chyflawni fy rôl statudol i graffu ar y canlynol a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif amdanynt:

- Perfformiad Heddlu De Cymru mewn perthynas â'r meysydd â blaenoriaeth a nodir yn y Cynllun hwn, ac a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â chi, y cyhoedd;
- Y trefniadau sydd gan Heddlu De Cymru mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth a chydweithio;
- Y trefniadau sydd gan Heddlu De Cymru ar gyfer ymgysylltu â phobl leol, gan sicrhau bod ein cymunedau amrywiol yn cael eu cynrychioli'n well gyda rôl gryfach o ran monitro perfformiad yr Heddlu yn unol â'm swyddogaethau statudol a'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun hwn;
- Y rheolaeth effeithlon ac effeithiol Heddlu De Cymru, gan gynnwys trefniadau rheolaeth ariannol a sicrhau Gwerth am Arian.

Dangosir y trefniadau yn isod:




Gweler Atodiad B am ddisgrifiad o'r Byrddau hyn.

# Craffu ac Atebolrwydd Cyhoeddus – I Bwy Rwy'n Atebol?

Ar fy ngwefan cewch wybodaeth am y ffordd rwy'n cyflawni fy swyddogaethau fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a'r cynnydd rydym wedi'i wneud o ran cyflawni Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder.

- O dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae'n ofynnol i mi lunio adroddiad blynyddol sy'n nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r amcanion a nodir yn y Cynllun hwn, y creffir arno gan Banel yr Heddlu a Throseddu ac a gyhoeddir ar fy ngwefan.
- Mae hefyd yn ofynnol i mi gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol at ddibenion tryloywder (cyflog, lwfansau a chofrestr o fuddiannau, gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion a materion sy'n ymwneud ag ymddygiad, manylion pellach am faint a chyfansoddiad Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a gwybodaeth am incwm, gwariant, hawliau eiddo a lwfansau, yn ogystal â pherfformiad yr heddlu yn erbyn blaenoriaethau cenedlaethol y Llywodraeth ar gyfer plismona, ffeithlun cryno Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi o PEEL – perfformiad o ran Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu a'r adroddiad PEEL diweddaraf ar gyfer yr heddlu, a'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion).

Yn y pen draw, rwy'n atebol i chi, cyhoedd De Cymru, drwy etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a gynhelir bob pedair blynedd, tra bod y penderfyniadau a wnaf hefyd yn destun craffu gan Banel yr Heddlu a Throseddu De Cymru.

# 11.0 Cyllid ac Adnoddau

Fel Comisiynydd, rwy'n gyfrifol am ddyrannu'r cyllid ar gyfer cyllideb yr Heddlu ac, mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl, am benderfynu sut y dylai adnoddau gael eu dyrannu rhwng gwahanol adrannau a mentrau, gan gydbwyso anghenion gweithredol â chyfyngiadau ariannol er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

Y Gyllideb Gyfalaf (ar gyfer prynu gwaith adeiladu, cynnal a chadw ystadau, amnewidio cerbydau a systemau TGCh) yw £49.5M.


## Dadansoddiad o Gyllid Heddlu De Cymru - 2025/26

48%

**£195.9m**

REFENIW'R DRETH GYNGOR

(a godir drwy'r praesept lleol)



52%

**£214.2m**

GRANT YR HEDDLU

Er mwyn cynyddu'r cyllid sydd ar gael ymhellach, bydd fy nhîm yn mynd ati'n rhagweithiol i gaffael a sicrhau incwm pellach drwy wneud cais am grantiau refeniw neu ffrydiau incwm ychwanegol a fydd yn gwella ymateb yr heddlu i'r galw lleol am wasanaethau plismona ac yn galluogi mentrau partneriaethau a fydd yn ychwanegu gwerth at eich cymunedau, ac yn sicrhau'r grantiau a'r ffrydiau incwm hynny.

Byddaf yn parhau i gefnogi'r Heddlu gyda'i waith hollbwysig, gan wneud popeth posibl i sicrhau bod ganddo'r cyllid sydd ei angen arno i ddarparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon yn unol â'r dull gweithredu a'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun hwn, a'i fod yn y sefyllfa orau i ddelio â heriau o ran troseddu a phlismona, nawr ac yn y dyfodol. Ar gyfer 2025/26, y gyllideb a drosglwyddir i'r Prif Gwnstabl er mwyn ariannu gwaith cyflawni gweithredol yr heddlu fydd tua £400M.

Bydd y buddsoddiad hwn yn cefnogi plismona yn ei gyfanrwydd, gan gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun hwn ar yr un pryd.

Byddaf yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif ar ran pobl De Cymru am y defnydd effeithlon ac effeithiol o'r gyllideb hon, drwy'r prif fecanweithiau canlynol:

- Monitro gwariant drwy graffu ar adroddiadau ariannol yn rheolaidd, gan gynnwys fel rhan o'r cyfarfodydd Un i Un â'r Prif Gwnstabl a thrwy drefniadau Perfformiad, Atebolrwydd a Chraffu rwyf wedi'u sefydlu.
- Goruchwylio perfformiad yn erbyn gwariant, gan ddefnyddio'r fframwaith perfformiad a chanlyniadau newydd a ddisgrifir isod, sy'n cynnwys ffocws ar adenillion cymdeithasol o fuddsoddi.
- Bod yn dryloyw drwy gyhoeddi ac atgyfnerthu gwybodaeth am ddata troseddau, yn ogystal â gwybodaeth am berfformiad a chyllid yr Heddlu.

## Cyllideb

Ar gyfer 2025/26, cyllideb graidd y Comisiynydd fydd £3M.

Fel Comisiynydd, byddaf yn ceisio sicrhau bod fy swyddfa yn cael ei rhedeg mewn ffordd gosteffeithiol a bod y gwasanaethau a ddarperir yn cynnig gwerth am arian. Bydd tua 50% o gostau rhedeg fy Swyddfa yn ymwneud â chyflawni fy swyddogaethau statudol fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, gyda 50% yn cael ei fuddsoddi i gyflawni fy mlaenoriaethau a nodir yng Nghynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder. Byddaf yn ceisio dangos y manteision sy'n deillio o fuddsoddiadau.

Bydd fy nhrefniadau llywodraethu yn sicrhau ein bod yn monitro gwariant yn effeithiol drwy gydol y flwyddyn a chaiff hyn ei ategu gan adolygiadau wedi'u targedu a gynhelir gan archwilwyr annibynnol, er mwyn sicrhau ein bod yn effeithiol o ran cydymffurfio â rheoliadau ariannol a darparu gwasanaethau effeithiol i ddefnyddwyr terfynol. Caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi ar fy ngwefan.

# 12.0
# Dangos Gwerth am Arian ac Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi

## Gwerth am Arian

Byddaf yn sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei ddangos yn erbyn y cyllid rwy'n ei reoli'n uniongyrchol a'r cyllid rwyf wedi'i drosglwyddo i'r Prif Gwnstabl er mwyn cyflawni gofynion plismona gweithredol.

Byddaf yn cymhwyso egwyddorion y cyd-Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a ddatblygwyd gyda'r Prif Gwnstabl, er mwyn monitro perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â chyllideb yn unol â gwerth am arian. Byddaf yn monitro hyn, drwy waith monitro ariannol rheolaidd drwy fwrdd Goruchwylio a Sicrhau Perfformiad y Comisiynydd, gydag adroddiadau yn ymdrin â'r canlynol:

- Gwybodaeth am berfformiad yn erbyn y gyllideb;
- Effeithiolrwydd perfformiad gweithredol;
- Adolygiadau o broffiliau gwerth am arian (drwy'r Bwrdd Adnoddau);
- Adborth ffurfiol gan Archwilio Cymru ar ddangos gwerth am arian ym mhob blwyddyn ariannol;
- Adborth o adolygiadau archwilio mewnol.



# Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi

Mae sicrhau y gallaf ddangos y gwerth cymdeithasol (yn ogystal ag economaidd) ac amgylcheddol sy'n deillio o'n gweithgareddau (a gweithgareddau'r gwasanaethau a gomisiynir gennym) yn llawn er mwyn i chi, y cyhoedd, allu fy nwyn i gyfrif am effeithiolrwydd y gwasanaethau rwyf yn eu comisiynu a'm galluogi i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif, yn flaenoriaeth allweddol. Rwy'n cydnabod y gall fod gwahaniaethau yn y pethau y mae pobl o gymunedau, diwylliannau a sefyllfaoedd gwahanol yn ystyried eu bod yn darparu gwerth iddynt.

Byddaf yn datblygu ac yn profi fy null o ddangos adenillion cymdeithasol o fuddsoddi yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun er mwyn sefydlu methodoleg gadarn sy'n ystyried yr amrywiadau hyn ac a fydd yn dal dŵr o'i archwilio.

# 13.0
# Mesur Llwyddiant ac Effaith

## Fframwaith Perfformiad

Caiff y Panel Heddlu a Throseddu ei hysbysu'n ffurfiol am yr hyn sydd wedi'i gyflawni yn erbyn y Cynllun hwn drwy adroddiad cynnydd chwemisol ac adroddiad blynyddol. Caiff yr adroddiadau hyn eu cyhoeddi ar fy ngwefan.

Byddaf yn monitro set graidd o fesurau sy'n gysylltiedig â phob un o'r pum blaenoriaeth, sy'n adlewyrchu ein gofyniad i ymateb i'r mesurau Plismona Cenedlaethol, a'm cyfrifoldeb i ddwyn ynghyd bartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol er mwyn lleihau niwed a mynd i'r afael â throseddu ac anhrefn.

Rwyf wedi llunio Fframwaith Perfformiad sy'n nodi sut y gellir mesur i ba raddau y mae'r Cynllun wedi'i gyflawni. Bydd y Fframwaith yn helpu i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei roi ar waith yn effeithiol a'i fod yn darparu ffordd glir fesuradwy o ddangos llwyddiant neu feysydd y mae angen eu gwella, gan gynnig y manteision allweddol canlynol:


- Darparu metrigau wedi'u diffinio'n glir er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ac allbynnau'r Swyddfa yn cyd-fynd yn glir ag amcanion strategol y Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder a'u bod yn cyfrannu at yr amcanion hynny;
- Darparu mecanwaith ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn y nodau a amlinellir yn y Cynllun, gan gynnig gwybodaeth mewn amser real am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd angen ei addasu;
- Darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth – gan ddefnyddio data a thystiolaeth i asesu a ydym yn cyflawni targedau allweddol, gan leihau'r angen i ddyfalu a gwella atebolrwydd;
- Galluogi'r sefydliad i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau drwy eu cyfeirio at feysydd sydd â'r potensial mwyaf i gael effaith, drwy helpu i nodi meysydd llwyddiant a thanberfformiad.

- Meithrin diwylliant o Welliant parhaus drwy ddarparu mecanwaith ar gyfer adolygiadau rheolaidd er mwyn helpu i fireinio prosesau a gwella effeithlonrwydd.
- Sicrhau tryloywder drwy roi tystiolaeth glir o gyflawni i randdeiliaid;
- Helpu i sicrhau bod risgiau yn cael eu rheoli'n effeithiol drwy dynnu sylw at feysydd lle y gall perfformiad fod islaw lefelau disgwyliedig.

Bydd y Fframwaith Perfformiad, a geir yn y dogfennau cysylltiedig, yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth ansoddol a meintiol a fesurir drwy adborth o weithgarwch ymgysylltu, troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu, ystadegau sydd ar gael i'r cyhoedd a data partneriaethau.

Bydd y Swyddfa hefyd yn cynnal archwiliadau dwfn o wasanaethau a phrosiectau wedi'u comisiynu er mwyn deall eu heffaith a'u heffeithiolrwydd yn well a helpu i lunio polisïau a'u rhoi ar waith yn y dyfodol, gan ffurfio partneriaethau â sefydliadau academaidd lle y bo'n briodol, er mwyn cynnal gwerthusiadau i ddeall yn well beth sy'n gweithio. Caiff craffu ar adroddiadau ac archwiliadau allweddol y llywodraeth ei gynnwys hefyd yn y dull rheoli perfformiad.





# 14.0 Sut i Gymryd Rhan

Rydym yn croesawu eich adborth unrhyw bryd. I gael rhagor o wybodaeth am sut y gallwch gymryd rhan, neu er mwyn cysylltu â ni, anfonwch neges:

E-bost:
comisiynydd@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk

Ffôn:
01656 869 366

# 15.0 Dogfennau Cysylltiedig

Bydd y dogfennau cysylltiedig canlynol yn dilyn maes o law:

- Fframwaith Perfformiad
- Dogfen Sylfaen Data Heddlu De Cymru
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Canfyddiadau ymgynghoriadau cyhoeddus
- Cynllun Lleihau Aildroseddu
- Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder i Blant a Phobl Ifanc
- Cynllun Gweithredu ar y Cyd De Cymru ar gyfer Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched
- Cynllun Atal Troseddu a Lleihau Trais

# Cyfeiriadau


[1]Swyddfa'r Prif Weinidog (2024). Strydoedd Mwy Diogel. [ar-lein] GOV.UK. Ar gael yn: https://www.gov.uk/missions/safer-streets.

[2] Llywodraeth Cymru (2023). Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: cynllun gweithredu lefel uchel y glasbrint. [ar-lein] LLYW.CYMRU. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-cynllun-gweithredu-lefel-uchel-y-0

[3]Llywodraeth Cymru (2022). Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026 [HTML]. [ar-lein] LLYW.CYMRU. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-strategaeth-2022-i-2026-html

[4]Llywodraeth Cymru (2019). Cefnogi troseddwyr benywaidd | LLYW.CYMRU. [ar-lein] LLYW.CYMRU. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cefnogi-troseddwyr-benywaidd. [Cyrchwyd 12 Chwef. 2025]

[5]Llywodraeth Cymru (2019). Cefnogi pobl ifanc sy'n troseddu | LLYW.CYMRU. [ar-lein] www.llyw.cymru. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cefnogi-pobl-ifanc-syn-troseddu

[6]Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru (2022). Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru. [ar-lein] Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/63a2d69dd3bf7f37654767cd/Welsh-translation-Criminal_Justice_Anti-Racism_Action_Plan_for_Wales_Report-print_version.pdf (publishing.service.gov.uk)

[7]Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2011/13/contents

[8]Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022). Age by single year - Office for National Statistics. [ar-lein] www.ons.gov.uk. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/TS007/editions/2021/versions/1

[9]NPCC(2024) strategaeth gwyddoniaeth a technoleg [ar-lein]. Ar gael yn: NPCC Science and Technology Strategy

[10]Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/37/contents

[11]Snowdon, L., Parry, B., Walker, A., Barton, E., (023) Cymru Heb Drais: Fframwaith ar y Cyd ar gyfer Atal Trais ymhlith Plant a Phobl Ifanc, Uned Atal Trais Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Caerdydd. Ar gael yn: https://cymruhebdrais.com/wp-content/uploads/2023/04/WWV-Fframwaith-Digidol-Cymraeg.pdf

[12]Iechyd Cyhoeddus Cymru, Hyb Ace Cymru a Straen Trawmatig Cymru (2022). Cymru sy'n Ystyriol o Drawma: Dull Cymdeithasol o Ddeall, Atal a Chefnogi Effeithiau Trawma ac Adfyd Wedi'i ddatblygu ar y cyd â phobl a sefydliadau ledled Cymru ac wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru. [ar-lein] Ar gael yn: https://traumaframeworkcymru.com/wp-content/uploads/2022/07/Cymru-syn-Ystyriol-o-Drawma.pdf

[13]Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru (2022). Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru. [ar-lein] Ar gael yn:https://assets.publishing.service.gov.uk/media/63a2d69dd3bf7f37654767cd/Welsh-translation-Criminal_Justice_Anti-Racism_Action_Plan_for_Wales_Report-print_version.pdf (publishing.service.gov.uk)

[14]Y Swyddfa Gartref (2023). Gofyniad Plismona Strategol 2023. [ar-lein] GOV.UK. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/strategic-policing-requirement-2023.cy

[15]Villa, C. (2024). The effects of youth clubs on education and crime | Institute for Fiscal Studies. [ar-lein] y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Ar gael yn: https://ifs.org.uk/publications/effects-youth-clubs-education-and-crime

[16]Y Swyddfa Gartref (2022). Serious Violence Duty Preventing and reducing serious violence Statutory Guidance for responsible authorities. [ar-lein] Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/639b2ec3e90e072186e1803c/Final_Serious_Violence_Duty_Statutory_Guidance_-_December_2022.pdf

[17]Allen, J. a Sidwick, D. (2022). Tackling Drug Related Crime – Getting It Right For Future Generations. [ar-lein] www.apccs.police.uk. Ar gael yn: https://www.apccs.police.uk/member-resources/resources/in-focus-tackling-addictions/

[18] Samele C., McKinnon, I., Brown, P., Srivastava, S., Arnold, A., Hallett, N. a Forrester, A. (2021). The prevalence of mental illness and unmet needs of police custody detainees. Criminal Behaviour and Mental Health, 31(2), tudalennau 80–95. doi:https://doi.org/10.1002/cbm.2193.

[19] UK Government of halving VAWG in a decade

[20]Gweithredu dros Blant (2023). The Jay Review of Criminally Exploited Children. [ar-lein] Ar gael yn: https://media.actionforchildren.org.uk/documents/Shattered_Lives_Stolen_Futures_Report_-_Full_Report.pdf

[21]Comisiynydd Plant Cymru (2020). Siarter Hawliau Plant. [ar-lein] Childcomwales.org.uk. Ar gael yn: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/05/SWP-Charter.jpg

[22] Heddlu De Cymru. Arolwg Dioddefwyr Troseddau 2023-2024.

[23]Murray, S., Welland, S. a Storry, M. (2024). Arolwg Dioddefwyr Blynyddol 2023. [ar-lein] Ar gael yn: https://cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com/uploads/sites/6/2024/08/Victim-Survey-2023-final-full-with-alt-text-27-Aug.pdf

[24]Llywodraeth y DU (dim dyddiad). Home - CJS Dashboard. [ar-lein] criminal-justice-delivery-data-dashboards.justice.gov.uk. Ar gael yn: https://criminal-justice-delivery-data-dashboards.justice.gov.uk/

[25]Lammy, D. (2017). The Lammy Review. [ar-lein] GOV.UK. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a82009040f0b62305b91f49/lammy-review-final-report.pdf

[26]Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018). Strategaeth Troseddwyr Benywaidd. [ar-lein] Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5b6c1093e5274a2994c75d5a/female-offenders-strategy-welsh.pdf

[27]Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2025). Proven reoffending statistics: January to March 2023. [ar-lein] GOV.UK. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/proven-reoffending-statistics-january-to-march-2023

[28] Brown, R. a Hobbs, A. (2023). Trust in the police Overview. [ar-lein] Ar gael yn: https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/POST-PN-0693/POST-PN-0693.pdf

[29]HMICFRS (2024). South Wales PEEL Assessment 2023–2025 - His Majesty's Inspectorate of Constabulary and Fire & Rescue Services. [ar-lein] Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi. Ar gael yn: https://hmicfrs.justiceinspectorates.gov.uk/peel-reports/heddlu-de-cymru-2023-25/

[30]World Economic Forum (2025). The Global Risks Report 2025 20th Edition. [online] Available at: https://reports.weforum.org/docs/WEF_Global_Risks_Report_2025.pdf

# ATODIAD A

## BYRDDAU LLYWODRAETHU ALLWEDDOL

**Panel yr Heddlu a Throseddu**

- Corff craffu anweithredol y mae'r Comisiynydd yn atebol iddo, sy'n ei herio ac yn ei chefnogi. Yng Nghymru, mae awdurdodau lleol yn cynnig enwebiadau ar gyfer aelodau i'w cynrychioli ar y Panel hwn. Un o rolau allweddol y Panel yw sicrhau tryloywder, gan alluogi'r cyhoedd i ddwyn y Comisiynydd i gyfrif yn effeithiol. Gall y Panel hefyd roi feto ar lefel y Praesept a gynigir gan y Comisiynydd. Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd gyflwyno drafft o'r Cynllun hwn i Banel yr Heddlu a Throseddu i'w adolygu, ynghyd ag adroddiad cynnydd blynyddol. Mae gan Baneli gylch eang i adolygu penderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymerwyd, neu graffu arnynt a goruchwylio dogfennau, penderfyniadau ac adroddiadau allweddol y Comisiynydd, gan ofyn iddi ddarparu gwybodaeth ac ateb unrhyw gwestiynau sy'n angenrheidiol, ym marn y panel.

**Bwrdd Goruchwylio a Sicrhau Perfformiad y Comisiynydd**

- Cadeirir y Bwrdd hwn gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Dyma'r prif Fwrdd y bwriedir iddo alluogi'r Comisiynydd i gyflawni ei chyfrifoldebau statudol i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon a chyflawni'r amcanion yn y Cynllun hwn.

- Bydd y Bwrdd newydd hwn yn cynnwys model ymgysylltu â dinasyddion, lle y bydd aelodau o'r cyhoedd yn gallu cyflwyno cwestiynau i'r Prif Gwnstabl, drwy fy swyddfa, er mwyn galluogi gwaith craffu a herio manylach a deialog agosach mewn perthynas â materion sy'n bwysig i chi. At hynny, byddwn yn ceisio recriwtio aelodau annibynnol i'r Bwrdd hwn o'n cymunedau yn Ne Cymru. Ceir rhagor o fanylion am y dull hwn gweithredu hwn ar fy ngwefan.

**Cyfarfod Un i Un rhwng Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl**

- Cynhelir y cyfarfodydd hyn bob mis.

**Cyfarfod Gweithredol**

- Cyfarfod a gynhelir rhwng y Comisiynydd, y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid er mwyn goruchwylio'r ffordd y cynhelir busnes yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, gan gynnwys, er enghraifft, mewn perthynas â'r canlynol: materion Cyfreithiol a materion Cydymffurfiaeth sy'n ymwneud â Chyllid a Chomisiynu; materion Iechyd a Diogelwch ymhlith pethau eraill.

**Bwrdd Rhaglen Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder**

- Cadeirir y Bwrdd hwn gan Brif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac mae'n gyfrifol am oruchwylio Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder a sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni'n effeithiol.

**Bwrdd Adnoddau**

- Diben y bwrdd yw adolygu rheolaeth ariannol, trefniadau rheoli risg a materion llywodraethu eraill.

**Bwrdd Partneriaeth**

- Diben y Bwrdd hwn yw sicrhau bod gweithgarwch ymgysylltu a chomisiynu partneriaeth yn gyson â'r blaenoriaethau yng Nghynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder a Chynllun Cyflawni Prif Gwnstabl De Cymru ac yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hynny.

**Cyd-bwyllgor Archwilio**

- Mae'r cyd-bwyllgor archwilio yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu corfforaethol Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru. Mae'n rhoi ffocws annibynnol a lefel uchel ar ddigonolrwydd y trefniadau llywodraethu, risg a rheolaeth. Mae ei rôl i sicrhau bod sicrwydd digonol ynglŷn â llywodraethu, risg a rheolaeth yn rhoi mwy o hyder i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bod y trefniadau hynny yn effeithiol.

- Mae'r Pwyllgor wedi'i alluogi i oruchwylio effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, eu hadroddiadau ariannol a'u hadroddiadau llywodraethu blynyddol ac i'w hadolygu'n annibynnol, ac mae'n ofynnol iddo wneud hynny, er mwyn helpu i sicrhau bod trefniadau digonol ar waith o ran her fewnol ac atebolrwydd cyhoeddus.

**Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona**

- Fforwm i alluogi sefydliadau allanol a chynghorwyr allanol i weithredu fel cyfeillion hanfodol i Heddlu De Cymru, gan gefnogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ei rôl craffu a sicrhau bod Heddlu De Cymru yn atebol ac yn dryloyw.

**Pwyllgor Moeseg**

- Pwyllgor Moeseg mewnol ac allanol, sy'n rhoi cyngor a chymorth ynglŷn â heriau moesegol sy'n codi o faterion gweithredol, gweinyddol neu drefniadol sy'n wynebu Heddlu De Cymru.

**Bwrdd Goruchwylio Diwylliant a Safonau**

- Bydd y Bwrdd hwn yn cefnogi rôl y Comisiynydd i graffu ar ddiwylliant a safonau'r heddlu.

**Bwrdd Gwyddoniaeth, Technoleg ac Arloesedd**

- Diben y Bwrdd newydd hwn yw rhoi cyngor a chymorth i'r Heddlu ynglŷn â chymhwyso dull moesegol o ddefnyddio gwyddoniaeth, technoleg ac arloesedd i ymateb yn effeithiol i heriau, risgiau a chyfleoedd presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg. Caiff y Bwrdd hwn ei gadeirio gan gynrychiolydd annibynnol o'r sector gwyddoniaeth a thechnoleg.

**Bwrdd Ystadau**

- Diben y Bwrdd Ystadau yw goruchwylio ystad Heddlu De Cymru a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben a bodloni gofynion gweithredol.

**Bwrdd Sicrwydd a Chydraddoldeb**

- Pwrpas y Bwrdd hwn yw i dal Heddlu De Cymru i gyfrif am ddarparu gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol. Mae'r Bwrdd yn craffu, cefnogi a herio perfformiad y heddlu ar feysydd blaenoriaeth a nodwyd.

# ATODIAD B

## RHESTR TERMAU

| Term neu acronym | Diffiniad neu derminoleg |
|---|---|
| ACEs (Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod) | Digwyddiadau yn ystod plentyndod a allai fod yn drawmatig, gan gynnwys cam-drin, esgeuluso a chamweithrediad aelwyd,  sy'n gysylltiedig â chanlyniadau negyddol hirdymor. |
| APCC | Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. |
| Archwiliadau dwfn | Dull lle mae unigolyn neu dîm yn cynnal dadansoddiad manwl, dwys o broblem neu bwnc penodol. |
| Asesiad PEEL | Adolygiad blynyddol allweddol Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi o effeithiolrwydd heddluoedd unigol yng Nghymru a Lloegr. |
| Bwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru | Partneriaeth amlasiantaethol sy'n dwyn asiantaethau cyfiawnder troseddol ynghyd i wella canlyniadau i ddioddefwyr a throseddwyr ledled De Cymru. |
| Bwrdd Partneriaeth Plismona | Corff llywodraethu sy'n goruchwylio trefniadau cydweithredu'r heddlu ac yn sicrhau atebolrwydd o ran cyflawni blaenoriaethau plismona. |
| Bwrdd Plismona yng Nghymru | Corff strategol sy'n cynnwys pedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Pedwar Prif Gwnstabl yng Nghymru, sy'n cydweithio ar flaenoriaethau a rennir. |
| Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | Mae'n ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a sefydlwyd yng Nghymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, asesu'r sefyllfa o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ym mhob ardal awdurdod lleol a phennu amcanion y bwriedir iddynt sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant cenedlaethol. |
| CARA | Rhybuddio a Cham-drin mewn Perthynas. |
| Casineb at fenywod (Misogyny) | Rhagfarn gynhenid tuag at fenywod. |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru | Swyddog etholedig sy'n gyfrifol am oruchwylio plismona mewn ardal benodol, gan sicrhau atebolrwydd yr heddlu a phennu blaenoriaethau o ran troseddu a chyfiawnder. |
| Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC) | Corff i'r DU gyfan sy'n cynrychioli Prif Gwnstabliaid, gan bennu cyfeiriad strategol ar gyfer plismona a chydgysylltu ymatebion i heriau plismona cenedlaethol. |
| Cynllun Gweithredu ar Hil yr Heddlu | Menter genedlaethol i fynd i'r afael â gwahaniaethau ar sail hil ym maes plismona a gwella ymddiriedaeth a hyder rhwng heddluoedd a chymunedau amrywiol o ran ethnigrwydd. |
| Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru | Cynllun sy'n amlinellu ymrwymiad partneriaid yn y sector Cyfiawnder Troseddol i wneud popeth o fewn eu gallu, yn unigol ac ar y cyd, i ddileu unrhyw fath o hiliaeth yn y System Cyfiawnder yng Nghymru. |
| CYP | Plant a Phobl Ifanc. |

| | |
|---|---|
| Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 | Deddfwriaeth sydd â'r nod o wella cymorth i ddioddefwyr troseddau a diwygio dull y system cyfiawnder troseddol o reoli carcharorion. |
| Dull Gweithredu sy'n Ystyriol o Drawma | Fframwaith ar gyfer deall effaith trawma ar unigolion ac ymateb iddo, gan sicrhau bod gwasanaethau yn sensitif i'w profiadau. |
| Dull Iechyd y Cyhoedd | Strategaeth sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu, gan gynnwys anghydraddoldebau cymdeithasol ac iechyd meddwl, drwy ymyrryd yn gynnar a gweithio mewn partneriaeth. |
| Dull system gyfan | Strategaeth amlasiantaethol gydgysylltiedig sy'n integreiddio gwahanol wasanaethau a sectorau er mwyn mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol cymhleth, gan sicrhau ymateb cyfannol ac effeithiol. |
| EDI | Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. |
| Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid | Cynllun strategol y bwriedir iddo wella'r system cyfiawnder ieuenctid drwy ganolbwyntio ar atal, dargyfeirio ac adsefydlu. |
| Gofal Cywir Person Cywir | Rhaglen genedlaethol sy'n ceisio sicrhau bod y person cywir sydd â'r sgiliau, yr hyfforddiant a'r profiad cywir yn ymateb i bobl ag anghenion iechyd meddwl. |
| HMICFRS | Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. |
| Llinellau Cyffuriau | Yr arfer o fasnachu cyffuriau o ddinasoedd mawr i ardaloedd gwledig a threfi llai o faint. Yn aml mae masnachwyr yn recriwtio pobl iau a phobl sy'n agored i niwed ac yn camfanteisio arnynt. |
| Model Lleisiau Ifanc | Menter ar y cyd a lansiwyd rhwng tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Heddlu De Cymru yn 2021 i dargedu pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. |
| Partneriaethau Lleihau Troseddu yn erbyn Busnesau | Mentrau cydweithredol rhwng yr heddlu a busnesau er mwyn mynd i'r afael â dwyn o siopau, twyll ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio ar amgylcheddau manwerthu. |
| SCCH | Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. |
| Plismona Cymunedol | Model plismona sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â chymunedau lleol, cynyddu gwelededd swyddogion yr heddlu a mynd i'r afael â phryderon lleol drwy weithio mewn partneriaeth. |
| Plismona sy'n seiliedig ar le | Mae plismona sy'n seiliedig ar le yn canolbwyntio ar fannau lle y ceir llawer iawn o droseddu ac mae'n dechrau â'r dybiaeth bod rhywbeth am le sy'n arwain at gyflawni troseddau yno. |
| Rhaglen Newid sy'n Para | Menter gydgysylltiedig sy'n mynd i'r afael â cham-drin domestig drwy ymyriadau hirdymor sy'n cefnogi dioddefwyr ac yn rheoli cyflawnwyr. |
| Seiberdroseddu | Gweithgareddau troseddol a gyflawnir gan ddefnyddio technoleg ddigidol, gan gynnwys twyll, hacio ac aflonyddu ar-lein. |

| | |
|---|---|
| Strategaeth Clirio, Dal, Adeiladu | Dull partneriaeth o fynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol. |
| Strategaeth CONTEST | Strategaeth y DU i leihau'r risg sy'n gysylltiedig â therfysgaeth. |
| Strategaeth Gwyddoniaeth a Thechnoleg Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu | Strategaeth genedlaethol sy'n amlinellu sut y gall maes plismona ddefnyddio datblygiadau technoleg i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. |
| Strategaeth Trais Difrifol y Swyddfa Gartref | Polisi a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU er mwyn mynd i'r afael â thrais difrifol, yn arbennig ymhlith pobl ifanc, drwy fesurau atal a gorfodi. |
| Troseddu Difrifol a Chyfundrefnol | Unigolion a grwpiau yn cydweithio i gynllunio a chydgysylltu troseddau difrifol. Yn aml, mae'n cael ei gysylltu â delio cyffuriau, twyll, camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol a masnachu mewn pobl. |
| Troseddau Meddiangar | Term torfol am fwrgleriaeth, dwyn oddi wrth unigolyn neu fusnes a throseddau sy'n ymwneud â cherbydau modur. |
| VAWDASV | Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. |
| VAWG (Trais yn erbyn Menywod a Merched) | Term sy'n cwmpasu gwahanol droseddau megis cam-drin domestig, aflonyddu, stelcio, trais rhywiol a thrais ar sail anrhydedd, sy'n cael effaith anghymesur ar fenywod a merched. |
| White Ribbon | Ymgyrch genedlaethol i roi terfyn ar gam-drin domestig. |
| Y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr | Mae'n diffinio hawliau dioddefwyr a'r safonau gwasanaeth gofynnol y mae'n rhaid i sefydliadau cyfiawnder troseddol eu darparu. |
| Y Ddyletswydd Trais Difrifol | Y gofyniad i bob corff cyhoeddus lleol gydweithio i lunio strategaeth sy'n nodi sut y byddant yn ymateb i drais difrifol yn eu hardal. |
| Y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod | Fframwaith polisi y bwriedir iddo wella canlyniadau cyfiawnder troseddol i fenywod, yn arbennig mewn perthynas â lleihau aildroseddu. |
| Ymrwymiad Strydoedd Mwy Diogel Llywodraeth y DU | Nod cenhadaeth strydoedd mwy diogel yw lleihau niwed difrifol a chynyddu hyder y cyhoedd mewn plismona ac yn y system cyfiawnder troseddol. |
| Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa | Gwirfoddolwyr sy'n archwilio cyfleusterau dalfeydd yr heddlu er mwyn sicrhau bod llesiant a hawliau'r rhai sydd yn y ddalfa yn cael eu cynnal. |
| Ymyrryd yn Gynnar | Gwaith sy'n cefnogi pobl drwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anfantais cyn gynted â phosibl. |
| Yr Uned Atal Trais UAT | Nod yr Uned Atal Trais yw mynd i'r afael â phob math o drais a chamdriniaeth drwy fabwysiadu dull iechyd y cyhoedd o atal trais. |

**www.comisiynydddecymru.org.uk**

I gael rhagor o wybodaeth am
eich Comisiynydd, dilynwch ni:

@comisiynydddc

Neu cysylltwch â ni drwy:

01656 869 366

**comisiynydd@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk**

Comisiyinydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Pencadlys Heddlu De Cymru, Heol y Bont-faen, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Law yn llaw
at Dde Cymru
diogel, cyfiawn
a chynhwysol